



## **Arolygiad Thematig**

# **Gwaith y gwasanaethau prawf yn y llysoedd**

**Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi**

**Mehefin 2017**

Cydnabyddiaethau:

Arweiniwyd yr arolygiad yma gan Arolygydd Ei Mawrhydi Mike Ryan, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr, yn ogystal â staff o'n timau gweithrediadau ac ymchwil. Y Prif Arolygydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon yw Helen Davies. Hoffem ddiolch i bawb a fu'n helpu i gynllunio'r arolygiad ac a gymerodd ran ynddo; heb eu cymorth a'u cydweithrediad hwy, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl

© Hawlfraint y Goron 2017

Mae hawl gennych aildddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence) neu anfonwch ebost at [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Yn y manau lle'r ydym wedi pennu gwybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y dalwyr hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad yma ar gael i'w lawrlwytho ar:

[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation)

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Llawr 1af y Ganolfan Cyfiawnder Sifil

1 Bridge Street West

Manchester

M3 3FX

# Cynnwys

	<b>Rhagair</b>	5
	<b>Ffeithiau allweddol</b>	6
	<b>Cyd-destun yr Arolygiad</b>	7
<hr/>		
	<b>Crynodeb Gweithredol</b>	8
	<b>Argymhellion</b>	10
<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	11
	1.1 Pam y thematig yma?	11
	1.2 Y Cefndir	11
	1.3 Nodau ac amcanion	12
	1.4 Amlinelliad o'r adroddiad	12
<b>2</b>	<b>Y trefniadau gweithio i gefnogi dedfrydu effeithiol</b>	13
	2.1 Gofynion cenedlaethol	13
	2.2 Darparu'r gofynion yn lleol	14
	2.3 Casgliadau a goblygiadau	15
<b>3</b>	<b>Adroddiadau cyn dedfrydu</b>	17
	3.1 Gofynion cenedlaethol	17
	3.2 Adroddiadau llafar - y canfyddiadau	18
	3.3 Adroddiadau fformat byr - y canfyddiadau	22
	3.4 Adroddiadau darpariaeth safonol - y canfyddiadau	23
	3.5 Casgliadau a goblygiadau	25
<b>4</b>	<b>Gorfodaeth</b>	27
	4.1 Y Canfyddiadau	27
	4.2 Casgliadau a goblygiadau	28
<b>5</b>	<b>Technoleg a'r gweithlu</b>	29
	5.1 Sut y defnyddir technoleg	29
	5.2 Y gweithlu	30
	5.3 Casgliadau a goblygiadau	32
	<b>Atodiad 1: Cyfeiriadau</b>	33

<b>Appendix 2:</b> Glossary	35
<b>Atodiad 3:</b> Y Fethodoleg	38
<b>Atodiad 4:</b> Rôl yr Arolygiaeth a'r cod ymarfer	39

## Rhagair

Mae'n galonog nodi bod y gwasanaeth prawf yn y llysoedd wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r trefniadau rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) a'r llysoedd yn fwy sefydlog erbyn hyn, ac mae'n rhaid i ddarparwyr y gwasanaeth prawf yn awr wella hyder y barnwyr a'r ynadon yn y ffordd y maent yn mynd ati i ddarparu'r dedfrydau cymunedol a orchmynant.

Am fod targedau heriol i'w cyflawni erbyn hyn o ran darparu cyngor am brawf yn gyflym i lysoedd (adroddiadau cyn dedfrydu), mae'r cyngor yn cael ei roi ar lafar ar y diwrnod yn llawer amlach erbyn hyn na'r ffordd draddodiadol, fwy hamddenol, o gynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig llawn. Gwelsom fod adroddiadau llafar yn darparu cyngor da yn gyson i lysoedd ynglŷn â pha ddedfryd i'w hystyried. Weithiau rhoddir cyngor mewn adroddiadau ysgrifenedig byrion, ond nid yw'r rhain o gystal ansawdd, ac mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ystyried pam. Fel y mae, gwelsom fod barnwyr ac ynadon yn llawer llai tebygol o ddilyn cyngor ynglŷn â dedfrydu a geir mewn adroddiadau ysgrifenedig byrion.

Mae'n gredyd i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol bod ganddo brosesau da erbyn hyn i gael gafael ar yr wybodaeth y mae'r llys ei hangen am amgylchiadau'r diffynnydd yn gyflym gan yr awdurdodau lleol a'r heddlu, a bod ganddo staff cydwybodol a gweithgar yn y llys bob dydd, yn galluogi i'r dedfrydau gael eu pasio'n gyflym ac yn ddiogel. Fodd bynnag, nid yw popeth yn dderbyniol. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn asesu faint o risg sydd y gallai unigolyn fynd ymlaen i achosi niwed difrifol - gwaith prawf craidd - ond nid yw'n gwneud hynny'n ddigon da ar y cyfan.

Ar ben hynny, ychydig iawn o adroddiadau sy'n cynnig rhaglen achrededig erbyn hyn yn anffodus. Mae hyn yn annealladwy: does neb eisiau gweld ystod o wasanaethau da o safon gyda chefnogaeth empirig gref yn gwywo ar y pren, oherwydd esgeulustod pur, ond dyna sy'n digwydd. Mae'r newid mewn dedfrydu (gyda llai o raglenni achrededig a mwy o ofynion gweithredu adsefydlu'n cael eu gorchymyn) wedi cael goblygiadau ariannol niweidiol a difrifol ar Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol oherwydd y ffordd y cânt eu talu - a pho leiaf o raglenni achrededig y gofynnir amdanynt, yr hiraf y mae'n rhaid aros am le mewn grŵp, a'r lleiaf y mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gallu cynnal y sgiliau i'w darparu nhw'n dda.

Rydym yn croesawu rhaglen Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol newydd i gefnogi adroddiadau llys da. Ond mae'n drueni nad yw'r rhaglen wedi ei chefnogi gan systemau (Tech Gwyb) modern, fel bod staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gallu gweithio'n fwy effeithiol ochr yn ochr â chydweithwyr cyfiawnder troseddol eraill yn y llys. Fel y mae, nid oes ganddynt sgiliau digon da ac maent o dan anfantais clir, er gwaethaf gobeithion y llywodraeth ar gyfer cyfiawnder troseddol yn yr oes ddigidol.

Er ein bod wedi gweld bod adroddiadau'n ateb anghenion y llys ar y cyfan, roeddent yn llai tebygol o fod yn ddigon llawn i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol allu cychwyn ar y gwaith yn syth, yn dilyn y llys. Gallai comisiynwyr ddweud bod yn rhaid i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol gwrdd â'r mesur syml, noeth o gynhyrchu cynllun dedfrydu, yn hytrach na chael gwybodaeth lawn gan eraill o flaen llaw, i sicrhau bod y cynllun yn cael ei osod ar y lefel gywir.

Yn olaf, er bod y gwaith a welwyd mewn erlyniad gorfodaeth gorchmynion cymunedol yn dda iawn, clywsom unwaith eto fod barnwyr ac ynadon yn pryderu bod Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn wan o ran dychwelyd achosion i'r llys, gan danseilio eu hyder mewn dedfrydau cymunedol. Byddwn yn adolygu gorfodaeth mewn mwy o fanylder cyn hir, yn rhan o arolygiad thematig penodol.

## Y Fonesig Glenys Stacey

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawhrydi

### Mehefin 2017

### Ffeithiau allweddol

- 158,305** Adroddiadau cyn dedfrydu a baratowyd i Lysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron (Gorffennaf 2015 i Fehefin 2016)<sup>1</sup>
- 100%** Y canran o adroddiadau cyn dedfrydu a gwblhawyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o fewn yr amserlen a osodwyd gan y llys, yn cynnwys achosion o gadw yn y ddalfa (o fis Ebrill hyd fis Medi 2016)<sup>2</sup>
- 31,342 (29%)** Y nifer o ddedfrydau cymunedol a orfodwyd yn y llys oherwydd methiant i gydymffurfio, troseddau pellach neu resymau eraill (o fis Hydref 2015 hyd fis Medi 2016)
- 71%** Y nifer o ddedfrydau cymunedol a gwblhawyd yn llwyddiannus neu a gawsent eu gorffen yn gynnar oherwydd cynnydd da (o fis Hydref 2015 hyd fis Medi 2016)
- 48%** Y gostyngiad yng nghychwyniad y rhaglenni achrededig (2009/2010 hyd 2015/2016)<sup>3</sup>
- 44%** Dyma ganran y cynnydd yn y defnydd a wnaed o ofynion gweithrediadau adsefydlu ar gyfer gorchmynion cymunedol yn ystod y cyfnod o Ebrill-Mehefin 2015 hyd Ebrill-Mehefin 2016.

---

<sup>1</sup>Mae gofyn i'r llys gael adroddiad cyn dedfrydu sydd wedi'i baratoi gan y gwasanaeth prawf neu'r Tim Troseddu Ieuentid cyn gosod dedfryd gymunedol neu ddedfryd o garchar: *adran 156 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003*

<sup>2</sup>Targed Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

<sup>3</sup> Annual NOMS Digest 2015/2016.

## Cyd-destun yr arolygiad

Mae'r gwasanaethau prawf wedi darparu cyngor a gwybodaeth i lysoedd ers talwm er mwyn helpu gyda phenderfyniadau dedfrydu, a chafodd eu rôl ei chynnwys mewn statud dros 100 mlynedd yn ôl.

Yn fwy diweddar, o dan raglen *Gweddnewid Adsefydlu* llywodraeth, mae'r gwasanaethau prawf wedi newid. Cawsent eu rhannu ym mis Mehefin 2014 yn Wasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) newydd yn y sector cyhoeddus a 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) sy'n eiddo i berchnogion preifat sy'n darparu gwasanaethau o dan contract. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn rheoli'r troseddwy'r hynny sy'n cyflwyno risgiau uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, neu sy'n cael eu rheoli o dan y Trefniadau Aml-asiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn goruchwylio'r mwyafrif o droseddwy'r eraill sy'n peri risg isel a chanolig o niwed. Ar amser ei freinio, cymerodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol y cyfrifoldeb (drwy statud) am yr holl gyngor a gwybodaeth a ddarperir i lysoedd.

Ochr yn ochr â *Gweddnewid Adsefydlu*, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio i weddnewid a moderneiddio'r system cyfiawnder troseddol. Gyda'i gilydd, mae rhaglen *Gweddnewid Cyfiawnder* Diannod yr adran a'i rhaglen *Gwell Rheolaeth ar Achosion* yn amcanu i foderneiddio'r system i bawb, gyda phrosesau gwell, triniaeth deg a pharchus o ddiododdefwyr a thystion, a thechnoleg gwybodaeth newydd i alluogi i wybodaeth am achosion gael ei rheoli'n ddigidol ar draws y system. Fel yma, mae'r llywodraeth yn bwriadu darparu system gyfiawnder droseddol sy'n gyflymach, ac yn gywir tro cyntaf. Mewn llysoedd, mae hyn yn cynnwys defnyddio technoleg fwy modern a newidiadau i'r defnydd a wneir o ystâd y llys hefyd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (*Gweddnewid y System Cyfiawnder Troseddol, 2014 Strategaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017*).

Rhaid i'r gwasanaethau prawf chwarae eu rhan. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn darparu cyngor a gwybodaeth i lysoedd mewn adroddiadau cyn dedfrydu, sy'n un o'i gyfrifoldebau, er mwyn helpu'r llysoedd i benderfynu'r ddedfryd fwyaf priodol. Yn hanesyddol, gofynnodd y gwasanaeth prawf bod y llys yn gohirio, yn aml am dair wythnos neu fwy, er mwyn casglu a darparu cyngor a gwybodaeth cyn dedfrydu. Y disgwyliadau newydd yw bod modd rhoi'r rhan fwyaf o'r cyngor i'r llys ar y diwrnod mewn achosion lle mae diffynnydd yn pledio'n euog, er mwyn osgoi gohiriad ac i ganiatáu i benderfyniad gael ei wneud am y ddedfryd ar unwaith.

I ymateb i hynny, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi datblygu a chyflwyno trefniadau penodol drwy'r wlad i gyd, gan greu prosesau a thimau gwasanaethau llys newydd, a gosod gofynion perfformio er mwyn darparu cyngor a gwybodaeth yn gyflymach cyn dedfrydu. Mae'r manylion i'w gweld yn y *Cyfarwyddyd Prawf perthnasol: Pennu Adroddiadau Cyn Dedfrydu - Dedfrydu o fewn y fframwaith newydd (PI 06/2016)*. Mae'r perfformiad yn cael ei fonitro drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaeth Carchar a Phrawf Ei Mawrhydi.

O fewn y cyd-destun yma y digwyddodd yr arolygiad thematig yma o waith llys y gwasanaethau prawf.

## Crynodeb gweithredol

Aethom ati i arolygu'r cyngor a'r wybodaeth a roddwyd yn uniongyrchol i ddedfrydwyr mewn adroddiadau cyn dedfrydu ac wrth orfodi gorchmynion cymunedol.

### Trefniadau gweithio i gefnogi dedfrydu effeithiol

Gwelsom drefniadau cryf a phwrpasol rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi a dedfrydwyr. Roedd trefniadau gweithio gyda Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn llai datblygedig ac roedd diffyg hyder gan rai dedfrydwyr yn narpariaeth dedfrydau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Ymhob un o'r safleoedd arolygu roedd teimlad o reolaeth weithredol ar y trefniadau gweithio, gyda'r uwch swyddog prawf yn chwarae rôl hanfodol. Mewn rhai meysydd, mae trefniadau traddodiadol y Pwyllgorau Cyswllt Prawf wedi cael eu hailgyflunio ac eto wedi eu cadw. Ymhob ardal roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd i yrru a chynnal y newidiadau i arferion gweithio sy'n ofynnol gan hanfodion Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion.

Yng nghamau cychwynnol y rhaglen newid *Gweddnewid Adsefydlu*, nid oedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedu eu hintegreiddio'n dda i mewn i ddatblygiadau'r llysoedd. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn achosion o orfodaeth lle'r oedd prosesau newydd, opsiynau dedfrydu newydd a threfniadau sefydliadol newydd yn golygu bod arferion Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cael eu barnu a'u craffu'n fwy nag o'r blaen. Gwelsom fod angen gwaith o hyd gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fel y brif asiantaeth, i hybu hyder y dedfrydwyr yn nibynadwyaeth a gwerth dedfrydu cymunedol ac i wella darpariaeth y dedfrydau yma.

### Adroddiadau cyn dedfrydu

Yn gyffredinol, roedd adroddiadau llafar yn ddigonol i bwrpasau dedfrydu ac roedd gan y dedfrydwyr feddwl uchel ohonynt. Ond, nid oedd yr adroddiadau (ysgrifenedig) fformat byr yn cwrdd â'n disgwyliadau o ran ansawdd ac nid oedd yr asesiadau o Risg o Niwed Difrifol yn ddigon trwyadl bob amser. Mae'r dedfrydwyr yn anghyfforddus gyda'r diffyg eglurder neu ddisgwyliadau clir wrth gynnwys gofynion gweithgareddau adsefydlu mewn dedfryd gymunedol. Fodd bynnag, nid oedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn argymhell rhaglenni achrededig yn aml iawn, ac roedd yn eu gorchymyn hyd yn oed yn llai aml, er gwaethaf y sail tystiolaeth clir i gefnogi eu defnydd.

Dylai'r cyngor a roddir i'r llys gynnwys ystyriaeth o faterion lle gallai dedfryd gael effaith niweidol ar ddiogelwch plant, partner neu ddiodefwr adnabyddadwy arall. Ymhob un o'n safleoedd a archwiliwyd, gwelsom drefniadau boddhaol (neu well) i sicrhau gwybodaeth am Ddiogelu Plant a chamdriniaeth ddomestig yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth ar gyfer darparu cyngor i'r llys. Lle nad oedd yr wybodaeth yma ar gael yn hawdd a hithau'n wybodaeth a fyddai'n cael effaith ar ddoethineb dedfryd benodol, byddai'r llys yn cael ei hysbysu am hyn fel mater o drefn. Yn y mwyafrif o achosion, sicrhawyd gwybodaeth berthnasol ac ymhob achos bron iawn, nid oedd unrhyw rwystr i ddedfrydu na dyraniad dilynol yr achos i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Mae'r asesiad Risg o Niwed Difrifol sydd yn yr adroddiad yma'n bwysig i bwrpas dedfrydu, ond yn yr adroddiadau a samplwyd gennym, roedd o ansawdd gwael yn aml iawn. Nid oedd yr asesiad a wnaed yn y llys bob amser yn ddigonol i bwrpasau rheoli risgiau ac i ymdrin ag angen drwy oruchwylio dedfryd gymunedol.

Fel y gwelsom yn ein harolygiad diweddar o ofynion gweithgareddau adsefydlu, mynegodd y dedfrydwyr bryderon am y defnydd a wneir o'r gofynion gweithredu adsefydlu a'r ffordd y cânt eu



darparu - opsiwn dedfrydu a gyflwynwyd gan *Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* - ac eto, er gwaethaf y pryderon yma, dyma oedd yr elfen a gynigiwyd ac a ddefnyddiwyd amlaf mewn dedfryd gymunedol. Trwy wneud gorchmynion o'r fath, mae dedfrydwyr yn ansicr pa weithgaredd fyddai'n dilyn neu faint fyddai'n digwydd mewn gwirionedd.

Mae canlyneb amlwg o ddefnyddio dedfryd sy'n ymddangos yn hyblyg ac sy'n weddol hawdd ei chynnig (am nad oes rhwystrau ar gymhwysedd neu addasrwydd) a'r gyfradd gynnig isel iawn ar gyfer rhaglenni achrededig er gwaethaf eu sail tystiolaeth empirig cryf. Yn ein sampl o 162 o adroddiadau, dim ond mewn 21 o achosion y cafwyd cynnig am ofyniad rhaglen achrededig mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd gohiriedig a ffurfiodd ran o'r ddedfryd a roddwyd mewn 15 o'r achosion hynny.

## **Gorfodaeth**

Gwelsom fod gwaith gorfodaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o ansawdd uchel. Mynegwyd pryder gan nifer o ddedfrydwyr, fodd bynnag, nad oedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn darparu dedfrydau cymunedol (cyn gorfodaeth) yn ddigon da.

Gwelsom achosion gorfodi'n cael eu darparu yn y llys ynadon. Ymhob un o'r chwe safle arolygu, llwyddodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gyflawni bob safon bron yn ymwneud â pharatoi a gweithredu gorfodaeth mewn llysoedd. Dywedodd y meinciau dedfrydu wrthym fod y gwaith a wnaed yn ddigonol i'w pwrpasau.

Yn ein sampl gorfodi, roedd y mwyafrif o'r achosion gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Clywsom nifer o bryderon gan ddedfrydwyr yn ymwneud â darparu dedfrydau cymunedol, oedd yn ymwneud yn fwyaf aml (ond nid yn gyfan gwbl) â gwaith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Cododd y pryderon yma o achosion lle gwelwyd fod yr arferion cyn y gweithredu gorfodaeth yn annigonol, er enghraifft, roedd gormod o absenoldebau derbyniol yn cael eu caniatáu.

Roedd tystiolaeth o reolaeth bositif ar anawsterau gyda'r broses o dorri gofynion rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

## **Technoleg a'r gweithlu**

Yn gyffredinol, mae caledwedd a meddalwedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn hen ffasiwn ac yn anymarferol, gan rwystro effeithiolrwydd ac effeithlondeb. Fodd bynnag, gwelsom ddefnydd effeithiol o dechnoleg dolen fideo. Cawsom fod swyddogion y gwasanaeth prawf yn hyderus ac yn alluog mewn gwaith gorfodaeth.

Nid oedd offer gweithio priodol ar gael i staff gweithrediadau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol felly nid oeddent mewn sefyllfa dda i weithio mewn amgylchedd gweithio digidol modern. Ychydig iawn oedd â gliniaduron oedd yn gweithio. O ganlyniad, roedd hi'n broses drwsgwl a rhwystredig i ddefnyddio storfeydd digidol (cronfa ar y cwmwl ar gyfer dogfennau achos cyfiawnder troseddol i holl ddefnyddwyr y llys). Gwelsom esiamplau o offer oedd yn anaddas i'w pwrpas: mewn un achos roedd y gliniaduron a glustnodwyd i staff wedi eu rhoi i gadw mewn storfa am nad oeddent yn gweithio'n iawn.

Yn un o'r safleoedd arolygu gwelsom adroddiad llafar yn cael ei ddarparu a gwelsom achos gorfodaeth ar wahân lle gweithredwyd yr achosion drwy ddolen fideo, gyda'r diffynnydd yn cael ei gadw yn nalfa'r heddlu yn hytrach na chael ei hebrwng i'r llys. O ran effeitholrwydd cyffredinol y system mae hyn, yn amlwg, yn faes o botensial sylweddol ac roedd y staff prawf yn gallu addasu eu harferion i gefnogi'r rhaglen dechnolegol yma.

Yn ein hadroddiad *Gweddnewid Adsefydlu - Gweithrediad Cynnar 5* gwelsom fod staff graddfa swyddog y gwasanaeth prawf heb eu hyfforddi'n ddigonol neu'n brin o hyder mewn llys ac yn eu gwybodaeth am yr asesiad o Risg o Niwed Difrifol. Blwyddyn yn ddiweddarach, gwelsom ddatblygiad sylweddol. Roedd swyddogion y gwasanaeth prawf yn darparu'n gyson dda.

## Argymhellion

### Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- ddarparu asesiad digonol i'r dedfrydwyr o'r Risg o Niwed Difrifol ymhob achos.
- hyfforddi staff y llys i roi ystyriaeth briodol i gynigion rhaglenni achrededig a monitro i ba raddau y cânt eu hargymell yn briodol
- sefydlu strategaethau lleol gyda Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol i wella hyder y dedfrydwr yn narpariaeth y dedfrydau cymunedol.

### Dylai'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol:

- ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r llysoedd am ymyriadau sydd ar gael i gael eu darparu drwy ofynion gweithgareddau adsefydlu a rhaglenni achrededig.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pam y thematig yma?

Comisiynwyd yr arolygiad yma ar cyd gan y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol yn 2016. Roedd y grŵp o'r farn y byddai arolygiad thematig o ddarpariaeth cyngor a gwybodaeth i lysoedd yn amserol ar ôl y newidiadau a gafodd eu darparu gan y rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu*. Cydnabu'r grŵp fod trefniadau gweithio da rhwng y llysoedd a darparwyr prawf newydd yn hanfodol i ddedfrydu a rheoli dedfrydwyr yn effeithiol.

Nid oes unrhyw waith ymchwilio i rôl y gwasanaethau prawf mewn gorfodi gorchmynion cymunedol na'u gwaith yn y llysoedd, er bod rhai astudiaethau penodol i'w cael o gynnwys ac ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu (PSR) (er enghraifft, Gelsthorpe, Raynor a Robinson, 2010). Mae hwn yn gyfle i daflu golau ar faes o waith sydd heb ei ymchwilio na'i werthuso'n ddigonol ac i bennu arferion gorau, a hysbysu safonau ansawdd posibl.

Bydd hefyd yn pennu a yw arferion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi gwella ers ein adroddiad *Gweddnewid Adsefydlu - Gweithredu Cynnar 5* ym mis Mai 2016. Yna cafodd y prif bryderon a bennwyd gennym eu ymwneud â safon y cyngor cyn dedfrydu sy'n cael ei roi i'r llys a'i ddefnyddio wedi hynny i bwrpasau dyrannu achosion. Ers hynny, canfu ein harolygon thematig o ferched sy'n troseddu (2016) a gofynion gweithrediadau adsefydlu (2017) arwyddion cynnar o ostyngiad yn hyder y dedfrydwyr yn narpariaeth y gwasanaethau prawf.

## 1.2. Cefndir

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn darparu gwasanaethau o dan gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Carchar a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) sy'n nodi beth sy'n ofynnol. Mae'n rhestru'r manylebau perthnasol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac hefyd yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ei ddarparu ar gyfer y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Dyma'r pedwar prif faes o gyngor a ddarparwyd i'r llys gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

- gwasanaethau mechniaeth
- gwasanaeth cymorth a llety mechniaeth (BASS)
- gwaith llys arall heblaw asesiadau ac adroddiadau
- asesiadau ac adroddiadau, cyn dedfrydu.

Mae'r awdurdod cyfreithiol ar gyfer darparu adroddiadau cyn dedfrydu ynghyd â chyngor a gwybodaeth i lysoedd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi ei gynnwys yn adran 4 *Deddf Rheoli Troseddwyd 2007*, sy'n nodi bod: 'rhoi cymorth i unrhyw lys i bennu'r ddedfryd briodol i'w phasio, neu i wneud unrhyw benderfyniad arall, mewn perthynas ag unigolyn sydd wedi'i gyhuddo neu ei erlyn am drosedd, i gael ei wneud gan ymddiriedolaeth prawf neu gorff cyhoeddus arall yn unig.' Mae asesiadau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a wnaed yn y llys yn penderfynu a fydd achos yn cael ei ddyrannu i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu i Gwmni Adsefydlu Cymunedol.

Yn *Gweddnewid Adsefydlu - Gweithredu Cynnar 5*, gwelsom fod llawer o adroddiadau llafar cyn dedfrydu'n darparu rhy ychydig o wybodaeth i helpu'r llys i ddedfrydu, a gyda thraean o'r rhain nid oedd cofnod ysgrifenedig o'r adroddiad. Hefyd gwelsom fod rhai aelodau o staff sydd ar raddfa swyddog gwasanaeth prawf (PSO) heb gael eu hyfforddi'n ddigonol neu'n brin o hyder yn y llys ac yn eu gwybodaeth o'r asesiad o'r Risg o Niwed Difrifol (RoSH).

Ochr yn ochr â'r newidiadau a gyflwynwyd gan y rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu*, mae newidiadau i gyflymu'r prosesau llys wedi cael effaith hefyd ar ddisgwyliadau gwasanaethau prawf, yn arbennig *Gweddnewid Cyfiawnder Diannod (TSJ)* a *Gwell Rheolaeth ar Achosion (BCM)*, y *Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gweddnewid y System Cyfiawnder Troseddol, 2014)*. I gwrdd â'r galw am i fwy o achosion gael eu cwblhau yn y gwrandawriad cyntaf, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

allu gwneud asesiadau ac adroddiadau o fewn amseriadau tynn. O ganlyniad, mae'r thematig yma'n archwilio safonau darparu adroddiadau cyn dedfrydu ac, yn arbennig, darpariaeth adroddiadau llafar.

Hefyd aethom ati i archwilio'r erlyniad am achosion o dorri dedfrydau cymunedol yn y llys ynadon. Mae'r maes yma o waith yn hanfodol i'r hyder sydd gan ddedfrydwyr yn narpariaeth y dedfrydau cymunedol gan ddarparwyr gwasanaethau prawf.

### 1.3. Nodau ac amcanion

Nod yr arolygiad yma oedd arolygu i ba raddau yr oedd trefniadau gweithio rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) a dedfrydwyr yn cefnogi dedfrydu amserol ac effeithiol. Nid oedd gwaith y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â mechnïaeth wedi ei gynnwys yng nghwmpas yr arolygiad hwn.

Dyma'r cwestiynau canolog a gafodd sylw yn yr arolygiad:

- Beth yw'r trefniadau gweithio rhwng HMCTS, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac a ydyn nhw'n hwyluso dedfrydu effeithiol?
- A yw adroddiadau cyn dedfrydu'n cyflawni eu prif bwrpas o helpu llysoedd i ddedfrydu?
- A yw prosesau cyfathrebu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gydag asiantaethau allweddol (yn cynnwys awdurdodau lleol, heddlu, carchardai a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol) yn effeithiol, yn arbennig mewn perthynas â rheoli'r risg o niwed?
- A yw'r prosesau o erlyniad prawf am dorri gofynion a cheisiadau am ddirymiad cynnar yn cael eu darparu'n effeithiol gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol?
- A yw'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi'i alluogi'n ddigonol i gynhyrchu cyngor ac adroddiadau o safon da i'r llys drwy fentrau Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion a mynediad at well systemau Technoleg Gwybodaeth?
- A yw strwythurau tîm y llys (staff, gallu, sgiliau) yn gallu darparu'r tasgau sy'n gysylltiedig â darparu gwaith y llys yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol?

### 1.4. Amlinelliad o'r adroddiad

Pennod	Cynnwys
Pennod 2 Trefniadau gweithio i gefnogi dedfrydu effeithiol	Y trefniadau gweithio rhwng HMCTS, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a dedfrydwyr, ac a yw'r trefniadau hyn yn cefnogi penderfyniadau dedfrydu'n ddigonol.
Pennod 3 Adroddiadau cyn dedfrydu	Ansawdd yr adroddiadau cyn dedfrydu ac i ba raddau y maent yn cyflawni eu prif bwrpas o helpu llysoedd gyda'u dedfrydu.
Pennod 4 Gorfodaeth	Ein canfyddiadau mewn perthynas â chyflwyno gwybodaeth i lysoedd ynadon am dorri amodau.

Pennod 5 Technoleg a'r gweithlu	Sut mae technoleg yn cefnogi'r broses o ddarparu cyngor i ddedfrydwyr, ac a ydyw'n gwneud hynny'n ddigon da.  Gallu a sgiliau'r gweithlu.
------------------------------------	---

## 2. Trefniadau gweithio i gefnogi dedfrydu effeithiol

Mae'r bennod hon yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau cyswllt llys. Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, staff a rheolwyr HMCTS yn ogystal ag ynadon, Barnwyr Cyswllt Prawf a Barnwyr Preswyl (lle maent wedi eu penodi) ymhob ardal.

### 2.1. Gofynion cenedlaethol

Ar lefel genedlaethol gwelwom drefniadau effeithiol ar waith yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gydlynu a goruchwyllo gwaith prawf yn y llys. Roedd hyn yn cynnwys Grŵp Strategaeth Llys Cenedlaethol, dan arweiniad prif Ddirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i lysoedd gydag uwch reolwyr llys yn mynd yno o bob adran o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Cyhoeddodd y grŵp yma gyfarwyddiadau ac arweiniad perthnasol a darparodd fforwm ar gyfer gyrru ac adolygu arferion prawf y llys. Roedd teimlad positif o arweiniad cenedlaethol mewn perthynas â gweithrediad y Model Gweithredu Cenedlaethol (E3).

Mae trefniadau cyswllt lleol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyda dedfrydwyr yn cael eu llywio gan y Cyfarwyddyd Prawf perthnasol: Trefniadau Cyswllt rhwng Dedfrydwyr a Darparwyr y Gwasanaethau Prawf (PI 18/2016). Nid yw'r cyfarwyddyd yn ceisio rhagnodi trefniant cyswllt 'un maint i bawb', gan ganiatáu i drefniadau lleol ddatblygu. Mae gofyn i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hwyluso'r cyswllt rhwng darparwyr y gwasanaeth prawf a'r dedfrydwyr a chymryd rhan yn y gwaith o weithredu'r mentrau Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion ochr yn ochr â chydweithwyr o HMCTS, ac fel y trefnwyd gan Farnwyr Cyswllt Prawf yn Llys y Goron.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am ddatblygu'r prosesau, y gallu a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r dyhead am ddarparu'r mwyafrif o adroddiadau cyn dedfrydu ar ddiwrnod y cais gan y llys a darparu gwybodaeth yn ymwneud â'r gwasanaethau prawf, yn cynnwys:

**Tabl 1 - Gofynion Cyswllt (PI 18/2016)**

Mae rhaglenni a gofynion ar gael yn lleol yn rhan o orchymyn cymunedol, gorchymyn dedfryd ohiriedig, gofynion gourchwyllo ar ôl dedfrydu neu fesur prawf arall, megis amodau mechnïaeth
Hwyluso darpariaeth gwybodaeth a chyflwyniadau gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol lleol a Gwasanaethau Monitro Electronig (EMS) am y ddarpariaeth sydd ar gael
Unrhyw wybodaeth sydd ar gael am gydymffurfiaid gyda rhaglenni lleol, yn cynnwys cyfraddau cwblhau, gwybodaeth am orfodiad, sancsiynau a thorri gofynion; ac adborth am waith na dalwyd amdano
Data am ail-droseddu lleol

Argaeledd y ddarpariaeth llety lleol ar gyfer y rheiny sydd ar fechniaeth
Darparu gwasanaethau i grwpiau penodol o droseddwyr megis darpariaeth i droseddwyr benywaidd neu droseddwyr ifanc

Mae'r Cyfarwyddyd Prawf yn dangos ymhellach y dylai cyswllt effeithiol:

- alluogi i faterion sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau prawf a rheoli dedfryd y llys gael eu cyfathrebu ar gam cynnar
- sicrhau bod proses yn ei lle i drafod a datrys materion ar lefel leol
- darparu proses ar lefel genedlaethol i ddatrys problemau cynyddol sy'n codi o fewn rhanbarth neu nifer o lysoedd
- sicrhau bod hyder y dedfrydwyr mewn gorchmynion llys yn cael ei gynnal
- darparu fforwm i'r holl ddarparwyr gwasanaethau prawf roi gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau cenedlaethol a lleol sydd ar gael i droseddwyr yn dilyn dedfryd.

## 2.2 Darparu'r gofynion yn lleol

Ar y lefel leol, roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ymwneud yn dda gyda HMCTS a'r farnwriaeth. Gwnaed hyn amlaf drwy gyfarfodydd perfformiad yn ymwneud â mentrau Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion lle chwaraewyd rôl allweddol gan yr uwch swyddog prawf (SPO), wedi ei gefnogi gan bennaeth yr uned ddarparu leol. Roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ymgysylltu â, ac yn gwneud cyfraniad positif i'r mentrau Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion ymhob un o'n chwe lleoliad arolygu. Mynegodd un Dirprwy Glerc yr Ustusiaid farn sydd gan lawer o bobl, sef bod: "*Staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn agored, gonest a thrylow a phan fydd problemau'n cynyddu maent yn ymdrin â nhw'n briodol.*"

Pennwyd ystod o weithgaredd cyswllt y dedfrydwyr gennym yn ein chwe lleoliad arolygu. Mewn dwy ardal roedd Pwyllgorau Cyswllt Prawf traddodiadol wedi eu cynnal a'u hailgyflunio, wedi eu cadeirio naill ai gan Gadeirydd Mainc yr Ynadon neu gynrychiolydd ynadon dirprwyedig. Mewn ardal arall, ymdriniwyd â'r trefniadau cyswllt prawf drwy gyfarfod busnes prawf - wedi'i gadeirio gan ynad a'i gefnogi gan gynghorwr cyfreithiol cyswllt prawf. Roedd y model yma'n integreiddio busnes prawf gyda rhaglen newid ehangach y HMCTS ac roedd yn ymddangos yn addawol.

Mewn dwy ardal roedd y prif bwyntiau cyswllt yn ymwneud â gweithgorau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Roedd hyn wedi ei ategu yn un o'r ardaloedd yma gan gyfarfodydd rhwng uwch swyddog prawf ac ynad cyswllt prawf dynodedig a chynghorwr cyfreithiol HMCTS i ymdrin â phroblemau o ddydd i ddydd.

Roedden yn llai bodlon gyda'r mecanweithiau sydd ar waith i ddarparu digon o wybodaeth a sicrhau i ddedfrydwyr am waith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Roedd hyder y dedfrydwyr yn isel pan oedd gwybodaeth gyfyngedig ar gael am y gweithgareddau a ddarperir yn rhan o orchmynion llys a oruchwylir gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Yn aml iawn roedd dedfrydwyr yn mynegi pryder am y diffyg cyfathrebu rheolaidd, ar ôl y rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu*, gydag un Barnwr Preswyl yn dweud:

*"Does neb yn ceisio tawelu ein meddyliau rhagor."*

Meddai un Barnwr Rhanbarth:

*"Fy mhryder yw nad oes gennyf innau na staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ddigon o wybodaeth am yr hyn mae'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ei wneud gyda throseddwyr pan maent wedi cael eu dedfrydu. Dydw i ddim yn hyderus bod y gwaith cywir na'r ymyrraeth gywir yn cael eu darparu na'u bod yn cael eu gwneud yn gyflym ar ôl y ddedfryd."*

Mewn ardaloedd lle'r oedd cyfarfodydd busnes neu gyswllt prawf ffurfiol yn parhau ac roedd y

Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi eu cynrychioli ar lefel y rheolwyr, roedd teimlad o welliant graddol yn y llif o wybodaeth i ddedfrydwyr. Roedd hyn o gymorth i leihau rhywfaint o'r pryderon sy'n bodoli'n lleol mewn perthynas â gwaith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys arferion gorfodi lle mae rhestr hir o absenoldebau derbynol yn gallu adlewyrchu gwendidau yn y system gofnodi yn hytrach nag arferion gorfodi gwael, er enghraifft pan fo tystiolaeth wedi'i darparu o salwch tymor hir. Dangosodd cadeirydd un pwyllgor cyswllt prawf bod y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi ymdrin â phryderon am reoli achosion yn y gymuned:

*"mae'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi cydnabod y materion hyn drwy fynd i'r cyfarfod PLC ac wedi tawelu ein meddyliau y byddent yn cael eu harchwilio a'u trin".*

Mae'r esiampl a ganlyn yn cynrychioli arfer da mewn perthynas ag ymgysylltiad y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol gyda llysoedd.

### Esiampl o arfer da

Mae aelod o Dîm Rhyngwyneb Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol Durham Tees Valley wedi'i ddyranu i'r llys ynadon i gynnig gwasanaethau sy'n cynnwys:

- cysylltu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol - i'r troseddwr yn y llys a defnyddwyr eraill y llys, nad ydynt oll yn gwerthfawrogi'r gwahanu
- cyflwyniadau i gyfreithwyr i esbonio *Gweddnewid Adsefydlu* a'r hyn mae'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ei gynnig
- rhoi diweddariadau i staff llys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am ddefnyddwyr cyfredol gwasanaeth y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol
- cynghori'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am addasrwydd achosion cyfredol ar gyfer dedfryd arbennig
- rhoi cyngor am raglenni i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i hysbysu eu cynigion.

Mae'r fenter hon wedi denu canmoliaeth gan ynadon lleol ac fe'i hystyrir yn fenter sy'n adlewyrchu'r perthnasau gweithio positif rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

## 2.3 Casgliadau a goblygiadau

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd graddol ers i ni archwilio ei waith llys diwethaf (yn ein harchwiliad *Gweddnewid Adsefydlu* 5). Mae gofynion a osodwyd yn genedlaethol (ond nad ydynt yn anorfod o gyfyngedig) ar gyfer cyswllt lleol yn cael eu darparu'n dda yn lleol.

Yn fwy na hynny, gwelsom ymgysylltiad gweithredol a phwrpasol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng ngwaith gweddnewid y HMCTS a gwaith gweddnewid sydd wedi'i arwain gan gyfiawnder ymhob un o'r safleoedd arolygu. Daeth darlun rhesymol gyson i'r amlwg o gynnydd cryf yn y gwaith i ateb gofynion y rhaglenni Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion i gyflymu darpariaeth y cyngor i lysoedd, yn arbennig drwy'r ddarpariaeth gynyddol o adroddiadau cyn dedfrydu ar y diwrnod.

I Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol mae'r sialens yn parhau o hyd i chwilio am y ffordd fwyaf priodol o weithio gyda chydweithwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ddarparu gwybodaeth ddigonol i

staff gweithredol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a dedfrydwyr am yr ystod o wasanaethau a gynigir ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny. Bydd angen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ystyried ymhellach y trefniadau cyfathrebu a chysylltu mwyaf effeithiol i hybu hyder dedfrydwyr ac i sicrhau cefnogaeth rheolwyr HMCTS i'r perwyl hwn.



### 3. Adroddiadau cyn dedfrydu

Yn y bennod hon rydym yn sôn am ganfyddiadau ein harchwiliad o adroddiadau darpariaeth safonol a fformat byr ysgrifenedig, llafar. Roedd ein sampl yn cynnwys 56 o adroddiadau llafar, 84 o adroddiadau fformat byr ysgrifenedig a 20 o adroddiadau darpariaeth safonol. Hysbyswyd ein offeryn archwilio Adroddiadau Cyn Dedefrydu gan Offeryn Gwella Arferion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a fabwysiadwyd ym mis Medi-Hydref 2016 i sicrhau ansawdd gwybodaeth cyn dedfrydu. Arolygwyd adroddiadau llafar drwy arsylwi'n uniongyrchol y cyfweiliad gan awdur yr adroddiad a'r cyflwyniad i'r llys. Lle bo'n bosibl, cafwyd gafael ar sylwadau pwnc yr adroddiad a'r fainc ddedfrydu. Arolygwyd adroddiadau ysgrifenedig drwy ddadansoddiad dogfennol.

#### 3.1 Gofynion cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn darparu oddeutu 150,000 o adroddiadau cyn dedfrydu ac yn gorfodi 50,000 o orchmynion cymunedol bob blwyddyn. Bwriad y targedau darparu sefydliadol, a fabwysiadwyd yn 2016, yw alinio ag egwyddorion ac amcanion y rhaglenni Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion a chyflymu darpariad yr wybodaeth cyn dedfrydu i ddedfrydwyr. Nod y targedau yma yw darparu'r rhan fwyaf o'r adroddiadau ar ddiwrnod eu ceisio gan y llys, naill ai'n llafar (60%) neu'n ysgrifenedig (30%) gyda'r gweddill (10%) yn adroddiadau darparu safonol (Model Darparu Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: Economi, Effeithiolrwydd a Rhagoriaeth (E3), 2016).

Mae cyfarwyddyd y prawf 'Pennu Adroddiadau Cyn Dedefrydu - Dedefrydu o fewn y fframwaith newydd (PI 04/2016)', yn dangos y dylai adroddiad cyn dedfrydu gynnwys y canlynol (o leiaf) ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain:

- dadansoddiad o'r drosedd a phatrwm y troseddu, y tu hwnt i ailddatgan ffeithiau'r achos
- amgylchiadau perthnasol y troseddwr, sy'n amlygu dolenni at ymddygiad troseddol, naill ai fel ffactor sy'n cyfrannu neu ffactor diogelu
- dadansoddiad o'r risg o niwed a'r tebygolrwydd o ail drosedd, wedi ei seilio ar feirniadaeth glinigol ac elfennau rhagfynegi statig
- canlyniad gwiriadau cyn dedfrydu gydag asiantaethau eraill neu ddarparwyr eraill y gwasanaethau prawf, yn cynnwys a oes unrhyw wiriadau'n dal heb eu gwneud
- ymdrin ag unrhyw ddangosiadau a ddarperir gan y llys
- cynigion dedfrydu sy'n gymesur â difrifoldeb y drosedd a bydd yn ymdrin ag anghenion a risgiau a aseswyd y troseddwr.

Mae arweiniad pellach am adroddiadau cyn dedfrydu, sydd wedi ei gynnwys yn nogfennaeth Offeryn Gwella Perfformiad Adroddiadau Llys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (2016), yn pwysleisio'r angen am osgoi oedi dianghenraid mewn achosion llys os nad yw gwybodaeth wedi'i gwirio, er enghraifft, galw allan i achosion o gamdriniaeth ddomestig neu achos Amddiffyn Plant. Er mwyn i gynnig gael ei ystyried yn ddiogel, y cyngor yw bod yn rhaid i awdur yr adroddiad ffurfio barn broffesiynol i farnu a fyddai'r wybodaeth yn cael effaith uniongyrchol ar ddedfrydu neu a ellid yn rhesymol ymdrin â'r wybodaeth ar ôl y ddedfryd i bwrpasau rheoli risg y ddedfryd ddilynol. Mae'r cyngor yma wedi ei grynhoi fel hyn: 'Argymhellion am Ddedfrydu Mwy Diogel'.

Mae'r data sydd ar gael am berfformiad ychydig yn hen, ond mae wedi ei gyflwyno isod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Ystadegau Rheoli Troseddwr, 2017). Mae'n dangos yn eglur y newid sylweddol sy'n ofynnol mewn perfformiad.

**Tabl 2 - Adroddiadau cyn dedfrydu**

	<b>Targed Lefel Gwasanaeth</b>	Hyd-Rhag 2015	Ion-Maw 2016	Ebr-Meh 2016	Gorff-Med 2016	Hyd-Rhag 2016
Adroddiadau Llafar - a ddarparwyd ar ddiwrnod y ple euog neu ddiwrnod cael y troseddwr yn euog, a'i gofnodi mewn fformat byr	<b>60%</b>	38%	45%	50%	54%	56%
Adroddiadau wedi'u Darparu'n Gyflym - adroddiadau ysgrifenedig mewn fformat byr, wedi'u paratoi gan fwyaf ar ddiwrnod y ple euog neu'r diwrnod y cafwyd y troseddwr yn euog	<b>30%</b>	51%	47%	42%	40%	39%
Adroddiadau Darpariaeth Safonol - wedi eu cadw ar gyfer achosion cymhleth, troseddu treisgar neu rywiol difrifol, neu lle mae angen asesiad o faint y perygl	<b>10%</b>	11%	8%	7%	6%	5%

### 3.2 Adroddiadau llafar - canfyddiadau

Meddai un Barnwr Rhanbarth: "*Po fwyaf y gwnânt, y gorau y byddent.*"

Mae data am berfformiad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn dangos newid amlwg yn arferion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol tuag at sefyllfa lle mae cyfran lawer mwy o adroddiadau'n cael eu darparu'n llafar neu ar ddiwrnod eu ceisio. Mae'r gyfran o adroddiadau llafar yn debygol o gynyddu ymhellach wrth i'r gyfran staffio a ragnodwyd gan Fodel Gweithredu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (E3) gael ei gweithredu'n llawn i ddarparu nifer briodol o staff i gwrdd â'r galw disgwylidig. Mae'r tabl nesaf yn dangos canfyddiadau ein harchwiliad mewn perthynas ag adroddiadau llafar:

**Tabl 3 - Ansawdd yr adroddiadau llafar**

	<b>Asesiad arolygwr (56 adroddiad)</b>
Pa mor ddigonol oedd y dadansoddiad o droseddau	78%
A oedd yr asesiad o'r Risg o Niwed Difrifol (RoSH) yn ddigonol?	62%
A oedd yr adroddiad yn cynnwys digon o wybodaeth i bwrpasau dyrannu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol neu i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol?	96%
Yn gyffredinol, a oedd yr adroddiad o ansawdd digon da i helpu'r broses ddedfrydu?	91%
Ai'r ddedfryd a argymhellwyd oedd y canlyniad?	65%

Lle gwelwyd diffygion yn y dadansoddiad o droseddau (12 achos), roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf gyda diffyg archwiliad o effaith y troseddu ar y dioddefwyr. Roedd y canlyniadau yn ôl safle'r arolygiad yn amrywio o 42% o ddigonolrwydd i 100%. Mae hi werth nodi, yn yr adroddiadau a welwyd, mai'r fainc oedd yn delio gyda'r achos oedd yr un a ofynnodd am dderbyn yr adroddiad yn hwyrach yn y dydd. Bydd y fainc yma wedi clywed achos Eryl y Goron, yn cynnwys cynrychioliadau'r dioddefwr lle bo angen. Wrth ystyried yr elfen o ddadansoddi troseddau yn yr adroddiadau, cynigiodd un grŵp o ynadon y farn fod: "*gormod o ailadrodd am y drosedd ac mae ein diddordeb mwyaf yn y cynnig/casgliad.*"


Mewn achosion lle'r oeddem yn barnu bod yr asesiad o'r Risg o Niwed Difrifol yn annigonol, roedd y broblem yn ymwneud â diffyg gwybodaeth. Wrth baratoi adroddiad llafar, mae angen i'r swyddog ddefnyddio barn broffesiynol ac ystyried a ddylai absenoldeb gwybodaeth sy'n ymwneud â risgiau arwain at gais am fwy o amser i gasglu gwybodaeth berthnasol. Ymron pob achos a welsom, rhoddwyd ystyriaeth briodol i effaith gwneud rhagor o waith casglu gwybodaeth ar y ddedfryd a argymhellwyd ac nid oedd y cyngor i'r llys wedi cael ei ohirio heb fo raid. O ganlyniad, er bod cyfyngiadau i'r asesiad, rydym wedi asesu bod yr holl achosion bron yn ateb y gofynion dedfrydu mwy diogel. Cafodd unrhyw ddiffygion mewn gwybodaeth a gyflwynwyd eu gwella ar y pwynt o ddyraniad yr achos. Ymhob un o'r safleoedd a arolygwyd gwelsom drefniadau lleol wedi'u sefydlu gyda'r heddlu a'r awdurdod lleol i ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â chamdriniaeth ddomestig ac Amddiffyn Plant.

Gwelsom achosion lle byddai ymarferwyr yn treulio awr a hanner mewn cyfweiliad, yn cyflwyno'r adroddiad i'r llys am hyd at 30 munud ac yna'n treulio o leiaf awr arall yn cwblhau'r deunyddiau perthnasol i bwrpasau dyraniad er mwyn cwrdd â'r holl ofynion (fel sydd wedi'u rhestru yn Nhabl 3). Yn nodweddiadol, roedd yr achosion yma'n cynnwys camdriniaeth ddomestig ac roedd hi'n amlwg bod yr ymarferwyr yn ceisio gwneud asesiad cynhwysfawr i ddarparu sail ar gyfer datblygu cynllun dedfrydu o safon dda. Gwelsom achosion o gymhlethdod tebyg yn cael eu hasesu mewn terfynau amser llawer byrrach, ond gyda'r gofyniad amlwg y byddai angen gwneud rhagor o waith ar ôl dedfrydu i sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion a gofynion rheoli'r achos.

Yn y ddau fath o achos, roedd canlyniad yr achosion llys yr un fath i raddau mawr, gan arwain naill ai at orchymyn cymunedol neu ddedfryd ohiriedig ac, yn aml iawn, at ofyniad am weithrediad adsefydlu (RAR). Gwelsom fod adroddiadau llafar yn gyffredinol ddigonol i bwrpasau dedfrydu a dyrannu achosion, ond rydym yn cydnabod bod y rhain yn gallu cyflwyno problemau wrth geisio cynllunio darpariaeth dedfryd gymunedol yn ddiogel ac effeithiol.

### Cynigion - adroddiadau llafar

Cawsom hyd i lefelau annisgwyl o isel o gynigion ar gyfer gofynion rhaglenni achrededig mewn dedfrydau cymunedol a nifer uchel o gynigion ar gyfer y Gofyniadau am Weithrediad Adsefydlu. Mae Ffigur 1 yn dangos yr ystod o ofynion dedfrydu sydd wedi'u cynnig yn ein sampl o adroddiadau llafar.



Mae'r lefel isel o gynigion am raglenni achrededig yn annisgwyl ac yn hynod o anffodus: nid oes unrhyw gyfarwyddyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i beidio argymhell rhaglenni achrededig, a does dim rheswm hysbys i wneud hynny. Mae sail tystiolaeth gref i gefnogi'r rhaglenni yma, mae gofynion wedi'u diffinio am addasrwydd a chymhwysedd nad ydynt angen asesiad pellach, ac mae'r holl Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ein sampl wedi darparu'r rhaglen gyffredinol am ymddygiad troseddol, y Rhaglen Sgiliau Meddwl a'r rhaglen Adeiladu Gwell Perthnasoedd (BBR).

Mae'r ffigurau cenedlaethol am gychwyn rhaglenni achrededig yn dangos dirywiad amlwg dros y chwe mlynedd ddiwethaf o 24,972 yn 2009/2010 i 12,946 yn 2015/2016; gostyngiad o bron i 50% (NOMS, 2016) Mae'n amlwg bod y ffenomenon yma o'r cyfnod cyn y *Gweddnewid Adsefydlu*, a'r mentrau *Gweddnewid Cyfiawnder Diannod* a *Gwell Rheolaeth ar Achosion*. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r arolygiad yma'n dangos y proffil cyfyngedig iawn sydd gan raglenni achrededig ar hyn o bryd yn y cyngor a roddir i ddedfrydwyr. Os yw rhaglenni o'r math yma i gael dyfodol yn rhan o ddedfrydau cymunedol - ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylent - bydd angen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fabwysiadu agwedd fwy systematig wrth ffurfio cynigion.

Yn ystod proses yr arolygiad yma, roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn arbrofi gydag offeryn newydd i helpu staff prawf y llys i wneud y cynnig mwyaf priodol. Gelwir hyn, ar hyn o bryd, yn Fframwaith Cynnig Effeithiol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Dylai gweithrediad offeryn o'r natur yma gefnogi staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i wneud y cynnig gorau a mwyaf priodol i lys

sy'n dedfrydu o safbwynt y sail tystiolaeth. I weithredu'r offeryn yma, bydd angen i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol allu cyflenwi, dim ond trwy bwysu botwm, manylion eu holl ymyriadau sydd ar gael.

Mae ein canlyniadau'n dangos bod anghenion ac amrywiaeth unigol ymron pob achos wedi cael eu hasesu'n ddigonol. Yn ein harolygiad thematig diweddar o ferched sy'n troseddu (2016) gwelsom fod argymhellion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ddedfrydwyr heb ystyried anghenion penodol i rywiau yn ddigon da ymhob achos, ac felly roedd gennym ddiddordeb arbennig yma yn y ffordd yr oedd timau'r llysoedd yn ymdrin â merched. Cafodd yr holl achosion benywaidd yn y sampl eu hasesu fel rhai lle rhoddwyd ystyriaeth i'w hanghenion unigol ac ymhob ardal roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cynnig dewis o ran rhyw awdur yr adroddiadau. Mewn dau o'r meysydd roedd trefniadau penodol ar waith drwy hyrwyddwyr merched neu staff arbenigol merched a magodd hyn gysylltiadau at wasanaethau penodol i ferched yn y gymuned lle'r oedd y rhain ar gael.

Byddai'n fater i'w ddadlau a oedd y graddau y pasiwyd y ddedfryd, sy'n gyfatebol â'r raddfa a gynigiwyd yn yr adroddiad (65%) yn gyfradd dda neu ddrwg. Nid oes unrhyw feincnodau wedi eu seilio ar waith ymchwil ar gael ar gyfer cymhariaeth. Gan edrych yn agosach, roedd hi'n amlwg bod y cynnig ymhob achos yn arwain at ddedfryd gyda goruchwyliaeth gymunedol naill ai o fewn dedfryd gymunedol neu o fewn gorchymyn dedfryd ohiriedig. Ni dderbyniodd unrhyw un o'r achosion yn y sampl yma ddedfryd o garchar.

Mewn mwy na hanner yr achosion roeddem wedi gallu siarad gyda'r dedfrydwyr, a'u cael bron i gyd yn fodlon bod yr adroddiadau'n cwrdd â'r pwrpasau dedfrydu:

#### **Tabl 4 - Asesiad y dedfrydwyr**

##### **asesiad ynadon (87 ynad)**

A oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn ddigonol i bwrpasau dedfrydu?	97%
---	-----

Ym mhob un o'r achosion heblaw un, roedd y meinciau'n cymeradwyo'r cyngor a roddwyd. Gwelsom fod ynadon yn croesawu'r cynnydd yn argaeledd yr adroddiadau llafar. Roedd y sylw yma gan grŵp o ynadon yn nodweddiadol:

*"yn gyffredinol, cafwyd gwelliant sylweddol yn yr adroddiadau a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae hyn wedi ymwneud yn bennaf â'r adroddiadau llafar sy'n caniatáu i ni ddedfrydu ar y diwrnod ac ymdrin â'r achos hyd ei ddiwedd. Ar y dechrau, roedd llawer o ohirio a dim digon o staff ar gael i ymdrin â'r galw. Ond mae hyn wedi gwella'n sylweddol."*

Buom yn siarad â 37 o unigolion y cafwyd adroddiadau llys amdanynt. Roeddent oll yn teimlo bod y broses o baratoi'r adroddiad wedi ei wneud mewn ffordd deg, sensitif a llawn parch. Mewn dwy ran o dair o'r achosion, dywedodd unigolion wrthym sut driniaeth a gawsent gan awdur yr adroddiad. Roedd gennym ddiddordeb mewn gweld a oedd cyflymder y broses wedi effeithio ar hyder pobl yn y system yn gyffredinol. Yr hyn a welsom oedd canmoliaeth ynghylch y ffaith fod yr achos yn cael ei drin yn gyflym ac, yn hollbwysig, mewn ffordd hynod o deg. Rhoddodd un o'r bobl yma'r disgrifiad a ganlyn o gyfweliad yr adroddiad:

*"Gwych - cefais ddweud popeth yr oeddwn eisiau ei ddweud ac roedd y dyn yn rhywun hawdd siarad ag o. Roeddwn yn teimlo mod i wedi cael fy nhrin yn deg ac nid oes gennyf unrhyw gwynion o gwbl. Rwy'n deall popeth a ddywedwyd a beth sy'n mynd i ddioglydd nesaf."*

### 3.3 Adroddiadau fformat byr - canfyddiadau

Y bwriad yw i adroddiadau fformat byr gael eu hysgrifennu mewn amgylchiadau lle mae'r wybodaeth sydd i gael ei darparu i'r llys mor gymhleth neu sensitif nes bod angen rhagor o amser i'w wirio, neu lle gallai fod yn broblematig o'i gyflwyno'n llafar mewn llys agored. Byddai hyn o dan amgylchiadau lle, er enghraifft, mae risg o ymddygiad sy'n ymwneud â niwed yn gysylltiedig â digwyddiad lle na chafwyd achosion troseddol neu lle nad yw'r diffynnydd wedi ymddangos yn y llys eto. Rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i ddiogelwch y dioddefwr wrth benderfynu ar y dull priodol o gyflwyno gwybodaeth i'r llys. Mae'r adroddiadau yma hefyd wedi'u bwriadu i gefnogi'r dedfrydu ar ddiwrnod yr euogfarnu ac nid ydynt o anghenraid i ofyn am fwy o ohiriad.

Barnwyd yr adroddiadau hyn yn llai digonol ar gyfer dedfrydu nag adroddiadau llafar, ac roedd y graddau yr oedd y cynigion yr un fath â'r ddedfryd a basiwyd yn is hefyd, gyda bron i draean o'r achosion yn derbyn dedfryd o garchar ar unwaith. Mae'r tabl nesaf yn cynrychioli canfyddiadau'r arolygiad o'n sampl o adroddiadau fformat byr:

**Tabl 5 - Ansawdd adroddiadau fformat byr**

	Asesiad yr arolygydd (86 o adroddiadau)
Pa mor ddigonol oedd y dadansoddiad o droseddau	61%
A oedd yr asesiad o'r Risg o Niwed Difrifol (RoSH) yn ddigonol?	67%
A oedd yr adroddiad yn cynnwys digon o wybodaeth i bwrpasau dyraniad?	92%
Yn gyffredinol, a oedd yr adroddiad o ansawdd digon da i helpu'r broses ddedfrydu?	71%
Ai'r ddedfryd a argymhellwyd oedd y canlyniad?	49%


Roeddem wedi tybio wrth lunio ein dull samplu y byddai adroddiadau fformat byr ysgrifenedig yn cael eu darparu'n bennaf gyda chyfnodau gohirio gweddol fyr am fod angen gwirio gwybodaeth neu sicrhau asesiad mwy manwl i bwrpasau cynnig, er enghraifft, os bydd angen cyfranogaeth gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd meddwl. Cawsom fod 10% o'r achosion wedi derbyn sylw ar ddiwrnod ceisio'r adroddiad, gyda mwy na thraean wedi'u gohirio am fwy na 15 diwrnod gwaith. Rydym yn gwerthfawrogi wrth gwrs nad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n gyfrifol am restru.

Roedd yr adroddiadau a arolygwyd gennym, fodd bynnag, o ansawdd is ar y cyfan nag adroddiadau llafar a arolygwyd, er gwaethaf y gohiriadau hir a roddwyd i rai. Ymhob un heblaw'r asesiad o'r Risg o Niwed Difrifol (RoSH), roedd yr adroddiadau'n llai boddhaol na'r adroddiadau llafar yn ein sampl. Cafwyd achosion lle'r oedd yr adroddiad wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno'n frysiog, gyda gwallau teipio a chamgymeriadau eraill a allai danseilio ffydd pobl yn yr adroddiad, ac efallai yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hefyd. Cafwyd sylwadau gan nifer o ddedfrydwyr am y defnydd o dorri a gludo i mewn i adroddiadau heb waith golygu dilynol. Mewn un achos, er enghraifft, cyfeiriwyd at ferch oedd yn bwnc un adroddiad gyda'r geiriau: 'ef/yntau/hi' ar nifer o achosion yn yr adroddiad.

O ystyried yr amser ychwanegol a ganiatawyd ar gyfer y rhan fwyaf o adroddiadau fformat byr, roedd hi'n siom gennym ganfod mai dim ond dwy ran o dair oedd yn cynnwys asesiad RoSH digonol. Yn ogystal, roedd llai o'r cynigion dedfrydu na'r adroddiadau llafar yn cyfateb gyda'r 'Argymhellion Dedfrydu mwy Diogel'.

### Cynigion - adroddiadau fformat byr

Mae Ffigur 2 yn dangos yr ystod o ofynion dedfrydu a gynigiwyd yn ein sampl o adroddiadau fformat byr.



Cynigiwyd rhaglenni achrededig mewn cyfran debyg o achosion â'r adroddiadau llafar. Roedd Gofyniadau am Weithrediad Adsefydlu'n llai amlwg (ond yn dal i fod y mwyaf cyffredin) ac roedd gwaith di-dâl yn cael ei argymhell ychydig bach yn amlach. O ystyried y cyfnodau gohirio hirach ar gyfer y mwyafrif o achosion, byddem wedi disgwyl gweld mwy o ystyriaeth i ystod ehangach o gynigion.

Yn y sampl ysgrifenedig yma ychydig iawn o wahaniaethau a welsom rhwng y ffordd mae dynion a merched yn cael eu trin. Nid oedd unrhyw gynigion am raglenni achrededig i ferched oedd yn bynciau adroddiadau, ac fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, roedd y gyfradd o ddedfrydau i garchar ychydig bach yn is nag ydoedd i ddynion. Roedd yr asesiad cyffredinol o 'ddigonolrwydd i bwrpasau dedfrydu' i ferched yn amlwg uwch nag ydoedd i ddynion.

### 3.4 Adroddiadau darpariaeth safonol - canfyddiadau

Mae'r tabl dilynol yn cynrychioli canfyddiadau'r archwiliad o'n sampl o adroddiadau darpariaeth safonol.

**Tabl 6 - Ansawdd yr adroddiadau darpariaeth safonol**

	Asesiad yr arolygwyr (20 adroddiad)
Pa mor ddigonol oedd y dadansoddiad o droseddau	74%
A oedd yr asesiad o'r Risg o Niwed Difrifol (RoSH) yn ddigonol?	60%
A oedd yr adroddiad yn cynnwys digon o wybodaeth i bwrpasau dyraniad?	95%
Yn gyffredinol, a oedd yr adroddiad o ansawdd digon da i helpu'r broses ddedfrydu?	85%
Ai'r ddedfryd a argymhellwyd oedd y canlyniad?	53%


Mae'r adroddiadau darpariaeth safonol wedi'u bwriadu ar gyfer achosion o droseddu rhywiol, trais ddifrifol, lle mae materion iechyd meddwl cymhleth a lle gall adroddiad gyfrannu at asesiad o raddfa'r perygl. Mae'r achosion hyn yn fwyaf tebygol o gael eu clywed yn Llys y Goron ac, felly, y disgwyliad yw y bydd angen cyfnodau hirach o ohiriad efallai.

Aethom ati i arolygu sampl gweddol fach (20) ac mae'n amlwg bod pwrpas yr adroddiad yn amlach yn gyfraniad at reoli'r achos yn y tymor hir a datblygu cynlluniau rheoli risgiau na chynghori am ganlyniadau dedfrydu penodol. Er bod rhai esiamplau o asesiad risg cryf iawn; gwelsom mewn wyth o'r achosion bod yr asesiad RoSH yn annigonol. Mae hwn yn ganlyniad gwael



## Cynigion - adroddiadau darpariaeth safonol

Mae Ffigur 3 yn dangos yr ystod o ofynion dedfrydu, a gynigiwyd yn ein sampl o adroddiadau darparu safonol.



Mae hwn yn sampl gweddol fach o adroddiadau (20) ac, oherwydd difrifoldeb y troseddu sydd dan sylw, yn y mwyafrif o achosion, derbyniodd pwnc unigol yr adroddiad ddedfryd o garchar. Dyma oedd cynnig yr adroddiad mewn chwe achos. Y ddedfryd a gynigiwyd oedd canlyniad y llys mewn ychydig dros hanner yr achosion, gyda gofyniadau dwy o'r bedair Rhaglen Drin Troseddwy'r Rhywiol yn rhan o'r ddedfryd a basiwyd gan y llys. Nid oedd unrhyw achosion benywaidd yn y sampl.

### 3.5 Casgliadau a goblygiadau

Yn gyffredinol, mae adroddiadau llafar o safon dda, mae dedfrydwyr yn hyderus bod adroddiadau'n gyffredinol yn addas i'r pwrpas o ddedfrydu, ac mae unigolion sy'n mynd i gael dedfryd yn gweld bod y prosesau adrodd llafar yn gweithio'n iawn. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau fformat byr o'r un ansawdd, felly maent yn cwestiynu trefniadau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer paratoi adroddiadau fformat byr.

Ar y cyfan, nid oedd yr asesiadau RoSH yn ein sampl o safon ddigon da er gwaethaf lansio Offeryn Gwella Perfformiad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar ddiwedd 2016. Mae'r safonau a fabwysiadwyd yn ymddangos yn gynhwysfawr ond nid yw'r rheiny sy'n ymwneud ag asesu'r RoSH yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae angen gwell sicrhad o ansawdd

Mae rhaglenni achrededig yn cael eu hesgeuluso fel opsiynau dedfrydu ac nid oes rheswm amlwg am hynny. Mae modd rhoi lle mewn Gofyniad am Weithrediad Adsefydlu i fynychu'r rhaglen achrededig. Mae'r opsiwn yma wedi'i gynnwys yn amlwg yn y *Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r 2014*, ac eto mae strwythur contract darparu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r mecanwaith talu cysylltiedig yn golygu nad oes arian i dalu am fynychu. Felly byddai angen addasu'r trefniadau cytundebol, os yw'r rhaglenni i gael eu darparu yn y ffordd yma.

Mae prosesau llys yn gofyn fwy a mwy am ddarparu dedfrydau'n gyflym, gan ostwng y siawns y bydd yr asesiad a wneir yn y llys yn ddigonol i bwrpasau rheoli risg hefyd ac i ymdrin ag angen drwy oruchwylio dedfryd gymunedol. Mae gwaith a wnaed yn gyflym i gynghori'r llys i bwrpasau dedfrydu'n annhebygol o ymdrin ag anghenion cymhleth, cymhelliant a chefnidir unigolyn sy'n gweithio ym maes goruchwyliaeth gymunedol. Os nad yw'n gwneud hyn, mae'r darparwydd gwasanaeth sy'n derbyn y cyngor - y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn y mwyafrif o achosion - yn

cymryd y cyfrifoldeb am wneud asesiad cynhwysfawr o achosion newydd eu dyrannu, er mwyn datblygu cynllun dedfrydu ystyrlon.Ac eto mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cael eu mesur ar hyn o bryd ar gwblhad cynllun dedfryd cychwynnol, nid y dasg nag ansawdd unrhyw asesiad cychwynnol.Mae'n sicr y bydd comisiynwyr eisiau ystyried hyn wrth iddynt adolygu darpariaethau contract Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

## 4. Gorfodaeth

Yn y bennod hon rydym yn sôn am ganfyddiadau ein harolygiad o orfodaeth achosion gorchymyn cymunedol yn y llys ynadon. Bu'r arolygwyr yn arsylwi'n uniongyrchol y cyngor a roddwyd i'r llys mewn 37 o achosion o dorri gorchymyn cymunedol yn llys yr ynadon. Mewn 12 o achosion, gwelsom i ba raddau yr oedd y fainc ddedfrydu (36 o ynadon) wedi cael y cyngor yn ddigonol i bwrpasau gwneud penderfyniadau. Mewn 12 o'r achosion cawsom wybod barn pwnc yr adroddiad am yr achosion. Roedd gwneud penderfyniadau am orfodaeth cyn y llys y tu allan i gwmpas yr archwiliad yma.

Aethom ati i archwilio materion yn ymwneud â gorfodaeth mewn ystod o gyfweiliadau gyda staff HMCTS, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a gydag aelodau'r farnwriaeth a'r ynadaeth ymhob un o'n safleoedd archwilio.

### 4.1 Canfyddiadau

Mewn pedwar o'r chwe safle archwilio roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi sefydlu canolfannau gweinyddol a luniwyd i gydlynu a rheoli ansawdd y ddogfennaeth am y toriad, y dirymiad a'r addasiad sy'n cael eu cyflwyno i'r llys. Roedd y graddau y gwasanaethwyd timau'r llys gan y canolfannau'n amrywio, o ranbarth i ranbarth. Yn Middlesborough, roedd hwn yn swyddogaeth a wnaethpwyd ar ran yr holl achosion yn rhanbarth y Gogledd Ddwyrain. Yn Nottingham roedd yn delio gydag achosion yn uned ddarparu leol Nottingham a Swydd Nottingham. Yn Southampton a Chaerdydd rheolwyd y broses gan gyfuniad o staff gweinyddol a staff sy'n gwneud rôl y swyddog gorfodaeth. Roedd manylion y prosesau rheoli achosion a'r ffordd y maent yn gweithredu y tu hwnt i gwmpas yr arolygiad yma ac mae ein harsylwadau'n ymwneud yn bennaf gyda chyflwyno achosion o fewn y llys.

Mae ein prif ganfyddiadau o'r gwaith arsylwi uniongyrchol i'w gweld yn y tablau dilynol:

**Tabl 7 - Achosion gorfodaeth**

	Asesiad yr arolygydd - 37 o achosion	Safbwynt y dedfrydwr - 36 o ynadon
A gafodd yr orfodaeth ei chyflwyno'n ddigon da i'r llys?	100%	100%
A gafodd argymhelliad y swyddog gorfodaeth ei ddilyn?	94%	
A oedd argymhelliad y swyddog gorfodaeth yn briodol?		100%
A oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael pan gafodd ei gyflwyno gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol?	95%	100%

Ymhob achos a arsylwyd, gallai'r llys ymdrin â'r achos ar ddiwrnod y gwrandawriad. Cafodd y mwyafrif o'r achosion (89%) eu rheoli gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac roedd bron pob un o'r ffeiliau am dorri gofynion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i erlyn yr achos yn effeithiol. Mewn 82% o'r achosion roedd y broses orfodaeth yn ymwneud â rhwng un a thri o fethiannau i gydymffurfio â'r oruchwyliaeth. Mewn dau o'r achosion cafwyd mwy na chwe achos o absenoldeb annerbyniol.

Ymhob achos ond un, gwnaed rôl y swyddog gorfodaeth gan aelod o'r staff sy'n Swyddog Gwasanaethau Prawf a gallai'r swyddog gorfodaeth ateb cwestiynau'n ddigonol gan ddefnyddwyr eraill y llys a'r fainc ddedfrydu ar bob achlysur yr oedd hyn yn angenrheidiol.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y ffordd yr oedd pynciau'r adroddiadau'n gweld y broses orfodaeth:

**Tabl 8 - Ymateb pwnc yr adroddiad**

	Yr ymateb gan bwnc yr adroddiad (n=12)
A gawsoch eich trin yn deg gan y swyddog gorfodaeth?	Dywedodd 92% eu bod wedi cael eu trin yn deg
Ydych chi'n deall yn glir beth fydd yn digwydd nesaf gyda'ch dedfryd?	Roedd 100% yn deall yn glir beth fyddai'n digwydd nesaf
Ydych chi'n fwy neu'n llai tebygol o gydymffurfio gyda'ch dedfryd?	Dywedodd 100% eu bod yn fwy tebygol o gydymffurfio yn y dyfodol

Roedd sylwadau a wnaed gan ddedfrydwyr am achosion a arsylwyd ac mewn cyfweiliadau lled-strwythuredig yn gyffredinol bositif ac yn cynnwys sylwadau bod staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn:

*"Effeithiol iawn, hynod o barod i helpu."*

*"Maent yn hynod drefnus ac wedi paratoi'n dda iawn, maent yn adnabod yr achosion y maent yn eu cyflwyno ac yn broffesiynol iawn. Maent bob amser wedi gallu ateb cwestiynau sy'n codi mewn ffordd hyderus."*

Fodd bynag, roedd barnwyr ac ynadon yn bryderus ynglŷn â rhai agweddau o'r gwaith rheoli achosion. Thema oedd yn codi eto ac eto oedd pryder sylweddol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau cyn y llys am achosion o dorri gofynion. Mynegodd y dedfrydwyr ddiffyg hyder yng nghadernid darpariaeth y dedfrydau cymunedol, yn arbennig adsefydlu cyffuriau, gwaith di-dâl a Gofyniadau am Weithrediad Adsefydlu.

Dywedodd un barnwr fod: *"chwalfa gyfan gwbl mewn ymddiriedaeth"* yng ngallu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol i ddarparu dedfrydau cymunedol. Mynegodd y barnwr y farn fod contractau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol:

*"...wedi eu sefydlu mewn dull sy'n tanseilio credadwyedd y ddedfryd a ddarperir ym meddwl y llys mewn perthynas â'r gosb ac mewn perthynas â phwrpasau adsefydlu'r dedfrydu."*

Mewn pwyllgor cyswilt prawf nodwyd hyn:

*"Rydym wedi gweld achosion lle cawsent eu torri ond cafwyd cyfnodau hirion o amser lle mae'n ymddangos nad oeddent yn cael eu goruchwyllo. Rydym hefyd yn bryderus nad yw gofynion yn cael eu cyflawni a bod troseddwy'r dan anfantais am nad oes ganddynt ddigon o amser i wneud pethau fel y rhaglen Adeiladu Gwell Perthnasoedd (BBR.) Mae hyn yn peri ein bod yn cwestiynu beth mae'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi bod yn ei wneud o gychwyniad y gorchymyn a pham nad oeddent wedi torri yn gynharch yn y gorchymyn."*

Nid oedd y beirniadu am y Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn unig ac, mewn mwy nag un ardal, amlygwyd darpariaeth y Rhaglen Trin Troseddwy'r Rhyw yn faes o bryder gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

## 4.2 Casgliadau a goblygiadau

Mae perfformiad staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o ran cyflwyno cyngor i lys yr ynadon yn dda iawn ymhob agwedd. Ymhob safle a arolygwyd, roedd gan HMCTS lysoedd gorfodi dynodedig, gan alluogi i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fabwysiadu agwedd gyson fel yr awdurdod erlyn.

Mae'n amlwg bod staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gymwys a bod y llysoedd dedfrydu'n rhoi gwerth i'w gwaith, sy'n cyfrannu rhywfaint tuag at wella hyder y dedfrydwr mewn dedfrydau cymunedol.

Roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi dyrannu'r adnodd cywir i'r maes yma o waith ymhob safle a arolygwyd a rhoddwyd llawer o ystyriaeth i gynllun y broses a'r ymlyniad â hi, a hynny'n llwyddiannus.

Yn y sampl a arolygwyd, roedd gwaith y Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn dangos cynnydd mewn cael gwybodaeth i'r llys am dorri gofynion a oedd o safon fyddai'n galluogi i waith proffesiynol gael ei ddapraru yn y llys i foddhad y fainc oedd yn gwrando ar yr achos. Soniodd y Cwmniau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ymhob ardal am drefniadau ffurfiol i gydweithio fel y rheswm am y cynnydd yma.

## 5. Technoleg a'r gweithlu

Yn y bennod hon rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau o ran gallu staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gynhyrchu cyngor o safon dda drwy fentrau Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion a mynediad at well systemau Tech Gwyb. I ymdrin â'r cwestiwn, aethom ati i gynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda rheolwyr uwch y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Uwch Swyddogion Prawf a grwpiau ffocws o staff gweithredol ymhob un o'n chwe safle arolygu. Rydym hefyd yn ystyried gallu a sgiliau timau gwasanaeth llys newydd eu sefydlu i gyflawni'r targedau sefydliadol a osodwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gefnogi targedau'r mentrau Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion. Cawsom grwpiau ffocws staff i ganfod safbwyntiau pobl ynghylch y materion yma. Cafodd materion gallu a sgiliau staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol eu harchwilio ymhellach mewn cyfarfodydd gyda rheolwyr, ynadon a barnwyr HMCTS.

### 5.1 Y defnydd a wneir o dechnoleg

Mae gweledigaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â dedfrydu cyflym yn cynnwys manteisio ar dechnoleg fodern i wella cyflymder ac effeithiolrwydd darpariaeth cyfiawnder. Mae hyn yn ddibynol ar y gofyniad bod yr holl bartion (yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) yn gallu defnyddio Wi-Fi diogel y llys o fewn adeiladau'r llys, gan adael iddynt weld yn syth deunydd sy'n cael ei gadw yn rhywle arall, a chwblhau ffurflenni a'u trosglwyddo rhwng y partion yn ddigidol. Gwelsom fod y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yn wahanol i ddefnyddwyr llys eraill, wedi'i gyfyngu'n sylweddol gan ei systemau Tech Gwyb a'i fod felly'n gorfod mabwysiadu atebion interim mwy aneffeithiol sy'n cymryd mwy o'u hamser, er enghraifft llungopio dogfennau a defnyddio peiriannau ffacs.

Mae'r dilynol yn ymatebion i gwestiynau yn ymwneud â Thech Gwyb gan staff a rheolwyr

*"Dim ond tri gliniadur sy'n gweithio. Nid oes cyfrinair gan bawb. Gallai fod ar-lein yn y llys ac ymateb ar unwaith."*

Mewn adeilad llys gyda 22 o lysoedd, dywedwyd wrthym:

*"Y Dechnoleg Gwybodaeth yw'r broblem fwyaf, yn aml iawn nid yw'n gweithio a dim ond dau liniadur sydd gennym ar draws y llysoedd. Yn aml iawn mae'r rhain yn methu yn y llys agored ac nid ydym yn gallu ateb cwestiynau ac rydym yn gorfod gwneud cais am ohirio achosion."*

Mewn un ardal, rhoddwyd cyfres o liniaduron wedi'u hailgyflunio i'r staff. Methodd y mwyafrif weithio ac maent wedi eu storio mewn cwpwrdd ers hynny.

#### Gwrandawiadau rhithwir

Rhagwelir y bydd llysoedd, dros amser, yn defnyddio gwrandawiadau traddodiadol, ar-lein a rhithwir yn y ffordd sy'n cydfynd orau gydag amgylchiadau'r achos Wrth i dechnolegau newydd setlo, disgwylir i nifer gynyddol o achosion gael eu gwneud yn rhithwir neu ar-lein. Ystyrir cyflwyniad technoleg dolen fideo yn ychwanegiad arwyddocaol i ddatblygiad achosion llys effeithiol. Felly, er enghraifft, gall llysoedd ddelio gydag achosion heb fod angen talu costau am gludo carcharorion. Gwelsom staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn addasu i ddulliau newydd o weithio, y gwelir tystiolaeth ohono fel a ganlyn mewn perthynas ag achos gorfodaeth.

#### Esiaml o arfer da:

Cafodd dyn 39 oed a restiwyd ar warant ac oedd yn cael ei ddal yng nghanolfan archwilio'r heddlu, ei gyflwyno drwy ddolen fideo i'r llys i ateb cyhuddiad o dorri gofynion gwaith di-dâl. Cafodd yr achos cyfan ei weithredu drwy ddolen fideo o'r ganolfan. Cyflwynwyd yr erlyniad gan swyddog gorfodaeth y gwasanaeth prawf a deliwyd ag o drwy gosb ariannol gyda'r gorchymyn i barhau. Cymerodd y broses lai na deg munud.

Cafodd achos mwy cymhleth ei drin mewn ffordd debyg yn yr un ardal.

#### EsiampI o arfer da:

Cafodd dyn 22 oed a restiwyd am dorri gorchymyn atal pan oedd ar fechniaeth am ymddygiad treisgar o fewn perthynas, ei gadw a'i gyflwyno i'r llys o ganolfan archwilio'r heddlu. Cychwynwyd a chwblhawyd yr holl wiriadau angenrheidiol o gamdriniaeth ddomestig ac Amddiffyn Plant cyn i'r achos ymddangos ar gyfer dedfrydu. Rhoddodd y swyddog adrodd gyfweiliad trwyadl drwy ddolen fideo a barhaodd am awr a hanner. Roedd pwnc yr adroddiad yn teimlo bod y cyfweiliad wedi bod yn deg ac wedi mynegi hyder mewn gweithio gyda'r gwasanaeth prawf ar sail tegwch ac eglurder y broses. Awgrymodd fod y cyfweiliad wedi bod ychydig yn frysiog efallai. Yn dilyn cynnig am orchymyn cymunedol, gosododd y Barnwr Rhanbarth oedd yn dedfrydu ofyniad i fynychu'r rhaglen achrededig BBR a redir gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol.

## 5.2 Y Gweithlu

### Beth sydd wedi'i fwriadu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol?

Mae siâp bwriadedig timau gwasanaeth llys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi'i amlinellu ym Model Gweithredu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (DE3) a lansiwyd ym mis Mehefin 2016. Mae targedau i gefnogi'r mentrau Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion yn rhan o'r cynllun lle bydd timau ymroddedig yn cynhyrchu'r holl adroddiadau i'r llysoedd y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys yr holl adroddiadau ac achosion newydd sy'n gyfredol i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ogystal ag adroddiadau y tu allan i'r ardal. Mae'r timau wedi'u ffurfio o Swyddogion Prawf (POs) a Swyddogion Gwasanaethau Prawf (PSOs) gyda'r bwriad y bydd y staff gweinyddol, yn y tymor hirach, yn gweithio mewn canolfannau rhanbarthol gweinyddol gwirioneddol neu rithwir.

Yn ystod cyfnod ein harolygiad roedd y newidiadau mewn staffio sy'n gysylltiedig â'r model yma naill ai wedi'u gweithredu neu ar y gweill. Mae'r model yn tybio y bydd y mwyafrif o'r adroddiadau cyn dedfrydu wedi eu hysgrifennu gan Uwch Swyddogion Prawf (sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol) gydag adroddiadau wedi eu cadw i Swyddogion Prawf dim ond o 'dan amgylchiadau penodol'.

### Gallu'r Tim

Yn y safleodd arolygu, roedd adnoddau digonol ar gyfer timau gwasanaethau'r llys. Roedd gan bob un Swyddog Prawf Uwch ymroddedig i dîm y llys, ac yn yr ardaloedd dinesig mwy roedd Swyddogion Prawf Uwch ar wahân i lysoedd y Goron a'r llysoedd ynadon. Ar y cyfan, nid oedd y grwpiau staff yn ymddangos fel petaent wedi'u gorlwytho. Ni fu unrhyw un yn siarad am lwythi gwaith gormodol, ond cyfeiriwyd at elfennau newydd o straen yn ymwneud â'r angen i wneud nifer o rolau a gweithio'n gyflym. Yn gyffredinol, roedd y timau'n ymddangos yn hynod frwdfrydig ac ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallent.

### Hyfforddiant a gallu

Canfu ein harolygiad *Gweddnewid Adsefydlu - Gweithrediad Cynnar 5* bod:

'staff llys swyddfa'r gwasanaeth prawf mewn un uned ddarparu leol, heb gael eu hyfforddi'n ddigonol ac yn aneffeithiol yn y llys. Yn arbennig, roeddent yn brin o hyder a gwybodaeth am asesu risg o niwed. Ar draws y chwe arolygiad, gwelsom nifer o adroddiadau llafar wedi eu hysgrifennu a oedd yn weddol ddi-werth i'r llys yn ein barn ni, ac yn darparu asesiad annigonol o'r unigolyn a'r drosedd.'

Yn yr adolygiad cyfredol gwelsom dystiolaeth gref o gynnydd mewn perthynas â hyder yn y llys. Ar hyn o bryd, mae diffiniadau clir yn nyranid y gwaith, gan gadw'r achosion mwyaf cymhleth i staff ar raddfa Swyddog Prawf. Gwelsom fod y rhain yn gweithredu'n briodol yn ein safleoedd arolygu.

Pan ofynnwyd iddynt am allu a hyfforddiant staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, cynigiodd un grŵp o ynadon y farn yma:

*"Mae gennym lawer o hyder yn yr adroddiadau gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r staff yn broffesiynol ac yn cynrychioli'r gwasanaeth mewn ffordd bositif."*

Cafodd y safbwynt yma ei ailadrodd ar draws ein safleoedd arolygu i gyd.

Roedd rhai manau oedd angen sylw mewn perthynas ag argaeledd y staff ar gyfer adroddiadau llafar neu ddiffygion achlysurol mewn safonau ymarfer, ond ar y cyfan roedd dedfrydwyr yn mynegi llawer iawn o foddhad yn y gwaith oedd yn cael ei gyflwyno iddynt. Yn fwy na dim, yr hyn oedd fel petai'n plesio fwyaf oedd yr arferion gweithio positif a defnyddiol oedd yn amlwg yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Meddai un Barnwr Preswyl:

*"Maent yno, maent yn fy nhywys. Maent yn rhoi adroddiadau llafar ar y diwrnod. Efallai bod rhywun arall wedi gwneud adroddiad ysgrifenedig ond maent yn gallu esbonio."*

Y prif ddull o ddysgu yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yw drwy wyllo neu gysgodi cydweithwyr. Mae hyfforddiant ffurfiol i Swyddogion Gwasanaeth Prawf wedi bod ar gael ond, yn gyffredinol, ni ystyrir hwn yn ddigonol i roi'r sgiliau i'r unigolyn wneud y tasgau sy'n gysylltiedig â darparu adroddiadau cyn dedfrydu. Dyma sut yr esboniwyd yr hyfforddiant gan un Swyddog Gwasanaeth Prawf:

*"Mae gwahaniaeth rhwng hyfforddiant a sesiynau briffio - mae Swyddogion Prawf yn cael hyfforddiant, mae Swyddogion Gwasanaethau Prawf yn cael sesiynau briffio."*

Mynegwyd pryderon arbennig gan rai o'r Swyddogion Gwasanaeth Prawf ynglŷn â chymryd rhywfaint o'r gwaith asesu gyda throseddwyr rhyw a throseddwyr camdriniaeth domestig. Roedd gwybodaeth amlwg am yr hyfforddiant craidd a ddarperir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer ysgrifennu adroddiadau ac roedd staff o'r mwyafrif o'r ardaloedd a arolygwyd wedi bod ar gwrs dau ddiwrnod.

Mewn rhannau eraill o'r adroddiad yma, rydym wedi nodi rôl yr Uwch Swyddog Prawf mewn datblygu trefniadau gweithio i gefnogi darpariaeth gyflymach. Mae rôl hollbwysig hefyd mewn perthynas â staff yn datblygu i rolau a gweithgareddau newydd. Roedd aelodau staff wedi bodloni ar drefniadau oedd yn llai cyson nag yr oeddent wedi bod efallai yn y gorffennol ac roeddent yn deall rôl a disgwyliadau newidiol rheolwyr canol. Roedd rhai ardaloedd wedi datblygu mecanweithiau cefnogi cymheiriaid oedd yn darparu cyfle gwerthfawr ar gyfer arferion adlewyrchol, yn ychwanegol at y trefniadau rheoli llinell ffurfiol.

### 5.3 Casgliadau a goblygiadau

Mae'n amlwg bod angen mawr gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am ddiweddariad technolegol os ydyw i gwrdd â'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan welliannau ehangach mewn technoleg gwybodaeth. Mae defnyddwyr eraill y llys yn gallu defnyddio technoleg fodern i lefel uchel ac, er nad oes bai ar staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, mae'r offer hen ffasiwn a ddefnyddir yn rhwystr i arferion gweithio symlach.



Roedd adnoddau da gan dimau'r gwasanaethau llys, ac roedd gan y staff y sgiliau priodol ac roeddent yn darparu cystal ag y bo modd er gwaethaf y ffaith fod y dechnoleg gwybodaeth yn wael. Roedd llawer o bobl wedi gorfod addasu i newidiadau yr oeddent wedi bod yn anghysurus â nhw fel ymarferwyr, roedd eraill yn ymddangos fel petaent yn croesawu'r cyfleoedd i ddatblygu a dysgu sgiliau newydd. Roedd y mwyafrif o ddedfrydwyr y buom yn siarad â nhw yn bositif am staff a gwaith y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae safonau uchel yn cael eu gosod ac mae angen eu cynnal a, lle bo raid, eu gwella.

## Atodiad 1: Cyfeiriadau

Gelsthorpe L, Raynor P a Robinson G (2010) Pre-sentence reports in England and Wales: changing discourses of risk, need and quality yn McNeill, Raynor a Trotter (2010) Offender Supervision, new directions in theory, research and practice, Willan, 2010

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Mai 2016) Gweddnewid Adsefydlu: Gweithredu Cynnar 5, Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Medi 2016) Arolygiad thematig o ddarpariaeth ac ansawdd y gwasanaethau yn y gymuned i ferched sy'n troseddu, Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Chwefror 2017) Gweithredu a darparu gofynion gweithredu adsefydlu, Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gorffennaf 2014) Gweddnewid y System Cyfiawnder Troseddol - Strategaeth a Chynllun Gweithredu, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Mehefin 2013, Cm 8658; Gweddnewid y System Cyfiawnder Troseddol – Y Diweddaraf am y Gweithrediad, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gorffennaf 2014, Cm 8868.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Ionawr 2017) Cyhoeddiad Chwarterol am Ystadegau Rheolaeth Troseddwr, Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Chwefror 2017) Strategaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: ein 10 mlynedd nesaf, Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (2016) Arweiniad i Arferion ar gyfer Adroddiadau Fformat Byr Cenedlaethol

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr (2016) Annual NOMS Digest – 2015/16: Llundain, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

## Atodiad 2: Geirfa

Rhaglen achrededig	Rhaglen o waith a ddarperir i droseddwy'r mewn grwpiau neu'n unigol drwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu'n rhan o ddedfryd o garchar neu amod mewn trwydded carchar. Mae rhaglenni achrededig wedi'u hachredu gan Banel Achrededig y Gwasanaethau Cywirol fel rhai sy'n effeithiol o ran gostwng y tebygolrwydd o aildroseddu
Dyraniad	Y broses a ddefnyddir i wneud penderfyniad ynglŷn â phwy fydd yn goruchwyllo troseddwr, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmni Adsefydlu Cymunedol
BASS	Y Gwasanaeth Cymorth ac Asesu Mechniaeth: tai a ddarparwyd gan Gymdeithas Tai Stonham (drwy Brydain gyfan) o dan gontract HMPPS i roi llety i bobl ar fechniaeth cyn eu dedfrydu ac hefyd y rheiny sy'n addas ar gyfer rhyddhau cynnar o garchar ar Gyrrffyw Cyfyngu i'r Cartref
BCM	Gwell Rheolaeth ar Achosion: y fenter o fewn y rhaglen Gweddnewid Cyfiawnder sy'n amcannu i ddarparu system cyfiawnder mwy effeithlon yn Llys y Goron
BBR	Adeiladu Gwell Perthnasoedd: rhaglen gwaith grŵp wedi'i hachredu'n genedlaethol i ostwng aildroseddu gan droseddwy'r gwrywaidd sydd â hanes o drais i bartner agos
System Dyrannu Achosion	Dogfen sydd angen cael ei chwblhau cyn dyrannu achos i Gwmni Adsefydlu Cymunedol neu i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Amddiffyn Plant	Gwaith i sicrhau bod yr holl gamau rhesymol wedi eu cymryd i gadw'r risg mor fach ag sy'n bosibl y bydd plentyn yn cael niwed.
CRC	Cwmni Adsefydlu Cymunedol: sefydlwyd 21 o gwmnïau o'r fath ym mis Mehefin 2014, i reoli'r mwyafrif o droseddwy'r sy'n cyflwyno risg isel neu ganolig o niwed difrifol.
E3	Mae E3 yn sefyll am 'Effeithiolrwydd, Effeithlondeb a Rhagoriaeth'. Crewyd y rhaglen E3 yn dilyn y rhaglen <i>Gweddnewid Adsefydlu</i> ym mis Mehefin 2014. Yr egwyddor sylfaenol yw safoni darpariaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, gan aildylunio'r strwythur Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyda chwe maes ffocws allweddol, yn cynnwys: goruchwyliaeth gymunedol, gwasanaethau llys; gwarchodaeth; gwasanaethau troseddu ieuencid; gwasanaethau troseddwy'r a safleoedd cymeradwy
HMCTS	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi: yr asiantaeth unigol sy'n gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd teulu, sifil a throeddol yng Nghymru a Lloegr
HMPPS	Y Gwasanaeth Carchar a Phrawf Ei Mawrhydi: o 01 Ebrill 2017 HMPPS oedd yr unig asiantaeth sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau carchar a phrawf ar draws Cymru a Lloegr. Ar yr un pryd, cymerodd yr Weinyddiaeth Gyfiawnder y cyfrifoldeb am gyfeiriad polisi cyffredinol, gosod safonau, craffu ar berfformiad carchardai a gwasanaethau comisiynu a oedd yn arfer perthyn i gylch

	gwaith y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyd Cenedlaethol (yr asiantaeth sydd wedi ei disodli gan HMPPS)
LDU	Yr uned ddarparu leol: uned weithredol sy'n cynnwys swyddfa neu swyddfeydd, sy'n gyd-derfynol fel arfer ag unedau galw sylfaenol yr heddlu a strwythurau'r awdurdod lleol
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: adran y llywodraeth sydd â chyfrifoldeb am y system gyfiawnder droseddol yn y Deyrnas Unedig
nDelius	National Delius: y system rheoli achosion cymeradwy a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yng Nghymru a Lloegr
MAPPA	Trefniadau Aml-Asiantaeth i Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, heddlu, carchar ac asiantaethau eraill yn cydweithio'n lleol i reoli troseddwyd sy'n peri risg uwch o niweidio pobl eraill. Mae Lefel 1 yn rheolaeth gan asiantaethau arferol lle mae modd i'r risgiau a berir gan y troseddwr gael eu rheoli gan yr asiantaeth sy'n gyfrifol am yr oruchwyliaeth neu reolaeth achos y troseddwr. Mae hyn yn cymharu gyda Lefelau 2 a 3, sy'n gofyn rheolaeth aml-asiantaeth weithredol
NOMS	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd: yr un asiantaeth sy'n gyfrifol am wasanaethau prawf a charchardai yng Nghymru a Lloegr hyd 31 Mawrth 2017. Ers 01 Ebrill 2017 mae'r gwasanaeth yma wedi'i ddisodli gan Wasanaeth Carchar a Phrawf Ei Mawrhydi
NPS	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: gwasanaeth cenedlaethol unigol a ddaeth i fodolaeth ym mis Mehefin 2014. Ei rôl yw darparu gwasanaethau i lysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwyd, yn cynnwys y rheiny sy'n cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a'r rheiny sy'n atebol i MAPPA
OASys	System Asesu Troseddwyd: defnyddir hon ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol i fesur risgiau ac anghenion troseddwyd o dan oruchwyliaeth
<i>Deddf Adsefydlu Troseddwyd 2014</i>	Yn weithredol o fis Chwefror 2015 ac yn berthnasol i droseddau a gyflawnwyd ar y dyddiad hwnnw neu wedyn, <i>Deddf Adsefydlu Troseddwyd 2014</i> (ORA) yw'r Ddeddf Seneddol sy'n cydfynd â'r rhaglen Gweddnewid Adsefydlu
PSR	Adroddiad cyn dedfrydu: mae hwn yn cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer llys, p'un a ydyw'n cael ei ddarparu'n llafar neu mewn fformat ysgrifenedig
PO	Swyddog prawf: dyma'r term am swyddog cyfrifol 'cymwysedig' sydd wedi gwneud cwrs addysg uwch am ddwy flynedd. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio yn dibynnu pryd y cafodd ei wneud. Maent yn rheoli achosion mwy cymhleth
PSO	Swyddog gwasanaethau prawf: dyma'r term am swyddog cyfrifol a gafodd ei recriwtio'n wreiddiol heb unrhyw gymhwyster. Gallent gael gafael ar hyfforddiant sydd wedi'i bennu'n lleol i 'gymhwyso' fel swyddog gwasanaethau prawf neu i adeiladu ar hyn i gymhwyso fel swyddog prawf. Gallent reoli popeth ond yr achosion mwyaf cymhleth yn dibynnu ar

	eu lefel o hyfforddiant a phrofiad. Mae rhai Swyddogion Gwasanaethau Prawf yn gweithio yn y llys, lle mae eu dyletswyddau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu
RAR	Gofyniad am Weithrediad Adsefydlu: o Chwefror 2015, pan weithredwyd y <i>Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr</i> , gall llysoedd bennu'r nifer o ddyddiau RAR o fewn gorchymyn; lle'r gwasanaethau prawf yw hi i benderfynu'r union waith sydd i gael ei wneud yn ystod y dyddiau RAR a ddyfarnwyd
RoSH	Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddiwyd mewn OASys. Mae'r achosion i gyd wedi'u categorio fel rhai sy'n peri risg isel/canolig/uchel/uchel iawn o niwed difrifol i eraill. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n defnyddio'r term yma wrth gyfeirio at y system gategoreiddio, ond mae'n defnyddio'r term ehangach 'risg o niwed' wrth gyfeirio at y dadansoddiad sy'n gorfod digwydd er mwyn pennu lefel y categorioedd. Mae hyn yn helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng y tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd ac effaith/difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term Risg o Niwed Difrifol ond yn cynnwys effaith 'ddifrifol', ond mae defnyddio 'risg o niwed' yn galluogi i'r sylw angenrheidiol gael ei roi i'r troseddwr hynny y mae ymddygiad niweidiol o ddifrifoldeb/effaith is yn debygol
SPO	Swyddog prawf uwch: y rheolwr rheng flaen o fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Rhaglen Driniaeth i Droseddwr Rhyw	Rhaglen sy'n addas i unrhyw droseddwr sydd ag euogfarn gyfredol neu flaenorol am drosedd rywiol, neu drosedd arall sydd ag elfen rywiol y gellir ei hadnabod i'w helpu i ymatal rhag y math yma o ymddygiad
Rhaglen Sgiliau Meddwl	Rhaglen grŵp achrededig wedi'i llunio i ddatblygu sgiliau meddwl y troseddwr i'w helpu i aros allan o drwbwl
TSJ	Gweddnewid Cyfiawnder Diannod: y fenter o fewn y gwasanaeth Gweddnewid Cyfiawnder sy'n amcanu i ddarparu system cyfiawnder fwy effeithlon yn y llys ynadon

## Atodiad 3: Methodoleg

Roedd yr archwiliad thematig yma'n ymwneud yn bennaf gyda darparu gwybodaeth a chynghor i'r llys gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yng Nghymru a Lloegr. Gwnaethom, felly, gyfyngu ein harolygiad i wybodaeth sy'n berthnasol i ddedfrydu a'r penderfyniad dyrannu achosion. Aethom ati i archwilio'r gwaith mewn chwech o ardaloedd y llysoedd: Caerdydd, Lerpwl, Middlesbrough, Norwich, Nottingham a Southampton. Roedd yr archwiliad yn archwilio gwaith mewn llysoedd y Goron a llysoedd Ynadon ymhob lleoliad.

Hefyd aethom ati i archwilio 160 o adroddiadau cyn dedfrydu y rhoddwyd dedfryd ar eu holau gan ddefnyddio cyfuniad o arsylwi uniongyrchol ac asesu dogfennau. Aethom ati hefyd i archwilio, drwy arsylwi'n uniongyrchol darpariaeth gorfodi gorchmynion cymunedol yn y llys ynadon mewn 37 o achosion. Ymhob achos sy'n cynnwys arsylwi uniongyrchol daethom i wybod, lle bo'n bosibl, safbwyntiau pynciau'r adroddiadau (49) a dedfrydwyr.

Er mwyn archwilio cyd-destun y gwaith, gwnaethom gyfweiliadau lled-strwythuredig ymhob un o'r safleoedd arolygu gyda: Rheowyr Gwasanaethau Tribiwnlys a llysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) ar gyfer llys y Goron a'r llys Ynadon (12), uwch reolwyr o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (6), uwch swyddogion prawf y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (6), staff llys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (49), uwch reolwyr o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol lleol (6), Barnwyr Preswyl llys y Goron (6), Barnwyr Cyswllt Prawf (4), Barnwyr Rhanbarth (5) ac ynadon (119).

Dyma oedd prif gydrannau'r arolwg yma:

Rhan Un - Cyn y gwaith maes

- 1) Cafwyd chwiliad o'r deunydd gwybodaeth ym mis Tachwedd 2016.
- 2) Galwyd am dystiolaeth ym mis Tachwedd 2016 drwy ein gwefan, Twitter a LinkedIn gyda cheisiadau e-bost i randdeiliaid allweddol. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion.
- 3) Dadansoddiad dogfennol mewn perthynas â deddfwriaeth, Gweddnewid Cyfiawnder Diannod a Gwell Rheolaeth ar Achosion, datblygu polisi, Cyfarwyddiadau Prawf, cyfarwyddiadau llys (er enghraifft canllawiau i'r dedfrydwr), Strategaeth Tech Gwyb i lysoedd.
- 4) Cafwyd ymarfer peilot ar gyfer y gwaith maes yng Nghaer i gasglu gwybodaeth a phrofi ein methodoleg.

Rhan Dau - Gwaith maes yr arolygiad

- 5) Pennu a dadansoddi trefniadau gweithio rhwng HMCTS, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol.
- 6) Arsylwad yn y gwaith llys o arferion gorfodi.
- 7) Samplu adroddiadau cyn dedfrydu (dogfennol ac arsylwadol mewn perthynas ag adroddiadau llafar).
- 8) Grwpiau ffocws staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- 9) Cyfweiliadau rheolwr y llys (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol).
- 10) Cyfweiliadau gydag uwch reolwyr allweddol o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a HMCTS.
- 11) Grwpiau ffocws/cyfweiliadau gyda'r dedfrydwr.
- 12) Cyfweiliadau gyda defnyddwyr y gwasanaeth.

## Atodiad 4: Rôl yr Arolygiaeth a'r cod ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

<http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/>

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylw am arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei gylch gwaith ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi

Llawr 1af, Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion

1 Bridge Street West

Manchester, M3 3FX